

Datblygu system wylriadwriaeth a
dadansoddi fel mater o drefn ar gyfer
ymyrryd yn gynnar ac atal trais:

Safbwynt amlasiantaeth

Model De Cymru



Emma Barton, Sara Long a Janine Roderick

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Ymchwil Polisi a Datblygu Rhyngwladol
Llawr 5 Rhif 2 Capital Quarter
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

ViolenceProject@wales.nhs.uk

Tachwedd 2016

© 2017 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gellir atgynhyrchu deunydd yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence-cymraeg/version/3/> ar yr amod y caiff hynny ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r hawlfraint o ran y trefniant teipograffyddol, y dylunio a'r diwygio yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

ISBN 978-1-910768-42-6

Dyluniwyd yn Creative Loop www.creative-loop.co.uk

Cynnwys

Byrfoddau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn	5
Crynodeb gweithredol	6
1. Cefndir	9
1.1 Cost gymdeithasol ac ariannol trais a'i gost i iechyd	9
1.2 Rhannu data ar gyfer ataliaeth	10
1.3 Trosolwg o effeithiolrwydd ymyriadau ar gyfer atal trais	12
2. Datblygu system wylriadwriaeth a dadansoddi ar gyfer ymyrraeth gynnar ac atal trais	20
2.1 Datblygu a gweithredu'r prosiect	21
2.2 Llywio ymarfer	24
2.3 Defnyddio data De Cymru	27
3. Trais yn Ne Cymru	28
3.1 Trosolwg ardal Heddlu De Cymru	28
3.2 Trawsgyfeirio	30
3.3 Nodweddion trais uned reoli sylfaenol De Cymru	32
4. Crynodeb ac argymhellion	36
5. Casgliadau	38
Cyfeiriadau	39
Cydnabyddiaeth:	41
Atodiad 1: Methodoleg adolygu ar gyfer effeithiolrwydd ymyriadau ar gyfer atal trais	42
Atodiad 2: Archwiliad data – newidiadau/gwelliannau i gasglu data	43
Atodiad 3: Tablau a ffigurau	49
Atodiad 4: Ymchwilio'r meini prawf cyfatebol ar gyfer trawsgyfeirio data adrannau brys a heddlu De Cymru	74



Byrfoddau a ddefnyddir yn yr adroddiad

ABMUHB	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	MUP	Isafswm Pris Uned
ATC	Canolfan Triniaeth Alcohol	NBCU	Uned Reoli Sylfaenol y Gogledd
BCU	Uned Reoli Sylfaenol	NCD	Set Ddata Gomisiynu Genedlaethol
BH	Ysbyty'r Barry	NPTH	Ysbyty Castell-nedd Port Talbot
BHC	Canolfan Iechyd y Bala	ONS	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
C&VUHB	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	PCH	Ysbyty'r Tywysog Siarl
CBCU	Uned Reoli Sylfaenol Ganolog	PEDW	Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru
CCH	Ysbyty Cefn Coed, Abertawe	PFA	Ardal yr Heddlu
CM	Rheolwr Achos	PHW	Iechyd Cyhoeddus Cymru
CSEW	Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr	PID	Data Lle Gellir Adnabod Person
CTUHB	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf	PoWH	Ysbyty Tywysoges Cymru
CVPP	Rhaglen Atal Trais Caerdydd	PTSD	Anhwylder Straen Wedi Trawma
DV	Trais Domestig	RCT	Hap-dreial wedi ei Reoli
EBCU	Uned Reoli Sylfaenol y Dwyrain	RGH	Ysbyty Brenhinol Morgannwg
ED	Adran Frys	SWP	Heddlu De Cymru
EHAV	Derbyniadau Brys i'r Ysbyty oherwydd Trais	SWPCC	Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru
EHP	Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd	UHW	Ysbyty Athrofaol Cymru
HB	Bwrdd Iechyd	VWI	Trais gydag Anaf
IPV	Trais Partner Mynwesol	WAST	Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
LH	Ysbyty Llandochau	WBCU	Uned Reoli Sylfaenol y Gorllewin
LSOA	Ardal Gynnyrch Ehangach Is	WHO	Sefydliad Iechyd y Byd
MH	Ysbyty Treforys		

Crynodeb Gweithredol

Mae troseddau treisgar yn cynnwys ystod eang o droseddau o ymosodiadau cyffredinol i anafiadau a llofruddiaeth. Mae trais gydag anaf yn cynrychioli 10% o'r holl droseddau a gofnodir gan Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr (CSEW) 2015¹ ac mae amcangyfrifon o CSEW yn awgrymu bod tua dau ym mhob 100 o oedolion yng Nghymru a Lloegr wedi dioddef trais.

Nododd Ystadegau Troseddau'r DU² yn 2015 fod 19% o'r holl droseddau ar draws Cymru wedi eu cofnodi fel troseddau treisgar ac mae'n awgrymu bod tua un ym mhob 55 o bobl sydd yn byw yng Nghymru wedi dioddef trosedd dreisiol. Amcangyfrifodd dadansoddiad annibynnol gan Ysgol Economeg Llundain fod cyfanswm cost trais ar gyfer 2008/09 yng Nghymru a Lloegr yn £29.9 biliwn⁵, yn fras y pen, gallai'r ffigur hyn fod cymaint â £1.5 biliwn ar gyfer Cymru. Amcangyfrifodd y Swyddfa Gartref fod y gost i gymdeithas, yn cynnwys gwasanaethau cyhoeddus trais yn ymwneud ag alcohol yn 2011/2012 ar draws y DU yn £21 biliwn yn flynyddol⁸. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys cost a amcangyfrifir i lywodraeth y DU o £4 biliwn, cost i gyflogwyr o £2 biliwn, a chostau dioddefaint dynol o £10 biliwn. Nid yw trais yn fater i'r heddlu a'r unigolyn yn unig. Gall gael effaith bellgyrhaeddol ar deulu, cymunedau a chymdeithas. O ganlyniad, mae trais yn flaenoriaeth uchel i'r gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys awdurdodau lleol, iechyd a'r heddlu.

Mae ymchwil wedi canfod bod cyfradd troseddau treisgar ar draws y DU 60% yn uwch nag y mae'r ystadegau swyddogol yn ei awgrymu.

Nid yw'r heddlu'n cael eu hysbysu ynghylch nifer fawr o ddigwyddiadau treisgar; canfuwyd mai dim ond 25%-50% o ymosodiadau a gofnodir mewn data bwrdd iechyd sydd hefyd yn cael ei gofnodi gan yr heddlu¹². Gan fod rhai o'r digwyddiadau treisgar mwy difrifol yn arwain at bresenoldeb

mewn adrannau brys neu dderbyniadau i'r ysbyty, mae ystyriaeth gynyddol yn cael ei rhoi i'r gwerth y gall data iechyd ei ychwanegu at wybodaeth yr heddlu er mwyn deall yn well ac archwilio tueddiadau o ran trais a chyfrannu at atal trais ar lefel gymunedol.

Datblygu ymagwedd arloesol tuag at fynd i'r afael â thrais yn y gymuned

Mae'r prosiect a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn rhan o gydweithrediaeth barhaus a sefydlwyd yn Ebrill 2014 rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW), Heddlu De Cymru (SWP), Byrddau Iechyd De Cymru ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (WAST) ac mae'n llywio rhan o Gynllun Lleihau Troseddu Heddlu De Cymru a'r Comisiynwyr Troseddu (SWPCC) (2013-2017).

Hyd yn hyn, mae'r ymdrechion ar gyfer atal trais yn lleol wedi defnyddio data adrannau brys (ED) yn bennaf i lywio gweithrediadau'r heddlu, ond mae ymchwil wedi dangos effeithiolrwydd rhannu data iechyd wrth atal troseddu¹⁵. Mae'r prosiect hwn yn datblygu'r dystiolaeth hon ac yn defnyddio data gan yr Heddlu, y Gwasanaeth Ambiwlans ac ED o dri bwrdd iechyd i roi cynrychiolaeth gyfannol o drais ar lefel leol er mwyn gallu adnabod ffactorau sy'n cyfrannu at hyn a'u defnyddio i lywio gweithredu ataliol.

Sefydlwyd cytundebau rhannu data rhwng partneriaid, a chafodd system rhannu data, gan ddefnyddio system ddiogel o drosglwyddo data, ei datblygu yn Ne Cymru mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (ABMUHB), Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (C&VUHB), Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf (CTUHB), SWP a WAST.

Mae'r ymagwedd hon yn caniatáu:

- Amlygu mynychder, nodweddion ac effaith trais yng Nghymru;
- Deall y ffactorau risg ar gyfer trais (cyflawni ac erledigaeth) er mwyn llywio ymyrraeth ac ataliaeth ar lefel leol;
- Mesur baich trais ar yr heddlu, adrannau brys a'r gwasanaethau ambiwlans;
- Ymchwilio i'r gwahaniaethau o ran demograffeg unigolion sydd yn cyflwyno eu hunain i bob gwasanaeth;
- I nifer yr unigolion sy'n cyflwyno eu hunain i un, dau neu dri gwasanaeth, ac yn bwysig iawn, nifer y bobl sy'n cael eu heffeithio gan drais sydd naill ai ddim yn cael triniaeth feddygol neu'r rheiny nad ydynt yn hysbysu'r heddlu ynghylch digwyddiadau, gael eu hamcangyfrif.

Nod y prosiect hwn yw cefnogi atal trais yn ei ffynhonnell trwy adnabod a mapio cymunedau, ar rawd yr heddlu'n bennaf, sydd wedi cael y nifer uchaf o bobl yn ymddangos mewn gofal iechyd o ganlyniad i drais. Mae hyn yn caniatáu ymyrraeth wedi ei dargedu i atal trais yn y cymunedau sydd â'r perygl mwyaf. Datblygodd y prosiect hwn system fonitro lle'r oedd adroddiadau rheolaidd fel mater o drefn yn cael eu creu ar gyfer Grwpiau Atal Trais Lleol^a. Defnyddir y system adrodd hon i:

- Archwilio ffactorau risg ar gyfer trais yn cynnwys oed, rhyw a chymuned;
- Creu dealltwriaeth o ardaloedd ar draws De Cymru sydd mewn perygl o drais. Dyma'r tro cyntaf yn ardal De Cymru y mae cartref dioddefwyr ymosodiadau wedi cael ei fapio i ddaearyddiaeth leol er mwyn caniatáu ymyrraeth wedi ei dargedu;
- Caniatáu atebion lleol i drais yng Nghymru;
- Darparu llwyfan amlasiantaeth er mwyn cynnal cynllun peilot o'r defnydd o ddata a gesglir fel mater o drefn wrth fesur effaith polisi ac ymyriadau eraill;

- Llywio ymarfer gweithredol a thactegol ymysg partneriaid, yn cynnwys iechyd, ysgolion, tai a chyfiawnder troseddol.
- Rhoi cyngor yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer ymyrraeth ac ataliaeth.

Gwelliannau yn ansawdd data a datblygu set ddata isafswm

Yn nodedig, roedd cysondeb ac ansawdd data yn amrywio rhwng yr ED a gwasanaethau eraill yn y prosiect hwn. Roedd y broses hon yn asesu ansawdd, cysondeb a pherthnasedd data a gesglir fel mater o drefn^b, ac roedd yn rhoi argymhellion i ddarparu data ynghylch sut y gellid gwella ansawdd y data. Gweithiodd PHW gyda'r Byrddau Iechyd (BI) yn Ne Cymru i ddatblygu set ddata isafswm i'w defnyddio i gofnodi ymddangosiadau yn ymwneud â thrais. Mae'r set ddata hon wedi cael ei hymgorffori i Symphony, system casglu data'r bwrdd iechyd, ac mae'n cael ei rhoi ar brawf ar hyn o bryd yn ABMUHB.

Ers dechrau'r prosiect, mewn ymateb i'r tri archwiliad data, mae ansawdd data wedi gwella ar draws yr holl ddata a dderbyniwyd.

Er enghraifft, mae CTUHB bellach yn casglu ac yn darparu data ar y ffordd y mae pobl yn cyrraedd ED yn unol â Byrddau Iechyd eraill. Er y gellid gwneud gwelliannau ar draws yr holl wasanaethau, mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud yn ystod y prosiect.

a Mae'r grwpiau hyn yn eistedd ar bob bwrdd iechyd yn Ne Cymru ac yn cynnwys cynrychiolaeth amlasiantaeth o faes iechyd, yr heddlu a phartneriaid cyfiawnder troseddol eraill (e.e. y gwasanaeth prawf).

b Mae data eisoes yn cael ei gasglu gan staff rheng flaen fel parafeddygon, staff derbynfa ED a'r heddlu.

Gwybodaeth wedi ei theilwra ar gyfer gweithredu lleol

Mae'r prosiect yn cydnabod bod plismona yn wasanaeth sy'n cael ei ddarparu'n lleol yn ei hanfod; felly cafodd system o adroddiadau gwyliadwriaeth trais lleol, deufisol^c eu datblygu a'u cyflwyno mewn Grwpiau Atal Trais Lleol. Rhoddodd yr adroddiadau ddarlun presennol o drais ar draws pob Uned Reoli Sylfaenol yn Ne Cymru (BCU) o ran mynychder y trais, math o ymosodiadau, a lleoliad y trais ynghyd â demograffeg dioddefwyr ymosodiadau. Roedd hyn yn galluogi'r heddlu a phartneriaethau lleol i dargedu strategaethau ymyrryd ac atal ar gyfer trais yn eu cymunedau yn fwy penodol.




BLWCH 1:

Enghreifftiau o'r Adroddiadau Gwyliadwriaeth Trais Lleol yn llywio gweithredu:

- Nododd yr adroddiadau uchafbwyntiau o ran trais mewn ardaloedd oedd yn hysbys i'r heddlu o'r blaen. Arweiniodd hyn at weithredu cynllun trefnu taccis i leihau'r unigolion ar y strydoedd yn Aberdâr a allai fod mewn perygl o ddiodeff trais ar ddiwedd y nos.
- Rhoddodd yr adroddiadau dystiolaeth er mwyn sicrhau cynnydd yn narpariaeth Ambiwylans Sant Ioan ar draws ardal CTUHB yn ystod cyfnodau brig yn economi'r nos, er mwyn lleihau baich trais ar adrannau brys.
- Dangosodd yr adroddiadau lefelau uchel o drais yn economi'r nos. O ganlyniad, cafodd cwrs manwerthu alcohol yn gyfrifol ei gynnig i staff bar yng Nghaerdydd ac Abertawe, oedd yn targedu lleoliadau oedd yn peri problem ond roedd ar gael i staff pob bar ar draws y ddwy ddinas.
- Dangosodd yr adroddiadau effeithiolrwydd ymyriadau fel Pwynt Cymorth yn Abertawe oedd yn helpu i leihau nifer y galwadau ambiwlans oedd yn cael eu cyfeirio i ganol dinas Abertawe yn ystod oriau economi'r nos.

Datblygiadau posibl i'r dyfodol

Gallai ymestyn y setiau data presennol i integreiddio gwybodaeth am y defnydd o gyffuriau ac alcohol ymysg dioddefwyr a chyflawnwyr trais helpu i roi dealltwriaeth fwy cyflawn o'r cymunedau sydd â'r perygl mwyaf o drais, a gallai cynnwys data trwyddedu gan bob awdurdod cyfrifol dargedu dulliau o atal trais ymhellach.



Gellid defnyddio'r systemau mapio a ddatblygwyd ar gyfer y prosiect hwn ymhellach i fapio mathau gwahanol o drais i lefelau amddifadedd a mathau gwahanol o droseddau fel fandaliaeth a thrais eiddo. Yn ogystal, gellid defnyddio mapio i alluogi dealltwriaeth well o'r ffordd y mae materion iechyd yn effeithio ar boblogaethau a'r tueddiadau sy'n effeithio ar y poblogaethau hyn.

Felly, mae potensial ar gyfer mapio geoleoliad i archwilio materion iechyd ac iechyd y cyhoedd eraill fel profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE) ac ymddygiad sy'n niweidio iechyd, a materion cymdeithasol ac amgylcheddol eraill sydd yn arwain at drosedd ac anhrefn, fel yfed ar feysydd chwarae ac ymysg ieuenctid.

1. Cefndir

Mae Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yn diffinio trais rhyngpersonol fel “y defnydd bwriadol o rym neu bŵer corfforol, bygythiol neu wirioneddol, yn erbyn person arall sydd naill ai’n arwain at neu sydd â thebygolrwydd uchel o arwain at anaf, marwolaeth, niwed seicolegol, camddatblygiad neu amddifadedd”³.

1.1 Cost gymdeithasol ac ariannol trais a’i gost i iechyd

Archwiliodd WHO ddata trais o 133 o wledydd yn fyd-eang ac amcangyfrif bod 1.3 miliwn o farwolaethau’r flwyddyn o ganlyniad uniongyrchol i drais⁴. Dim ond nifer fach o achosion o drais sydd yn arwain at farwolaeth; ond, mae effaith trais yn eang a gall barhau am amser hir, gan achosi iechyd a lles gwael. Gall unigolion sydd yn dod i gysylltiad â thrais ddiodeff ystod o ganlyniadau corfforol, cymdeithasol ac iechyd meddwl tymor byr a hirdymor.

Mae’n anodd meintioli cost lawn trais, ond mae effeithiau tymor byr hysbys ar systemau iechyd, cymdeithasol, addysgol, cyflogaeth a chyfreithiol hefyd yn ogystal â rhai hirdymor.

Mae trais yn erbyn y person hefyd yn rhoi cost economaidd sylweddol ar yr unigolyn, y teulu, cymunedau, gwasanaethau cyhoeddus (yr heddlu, gwasanaethau ambiwlans, gofal iechyd, gofal cymdeithasol, cyfiawnder troseddol a thai), cyflogwyr, busnesau a’r economi ehangach⁴ a gellir eu grwpio’n fras yn ddau gategori, sef costau uniongyrchol ac anuniongyrchol⁵.

Costau uniongyrchol

Yw’r rheiny sydd yn deillio’n uniongyrchol o weithredoedd o drais neu ymgais i’w hatal fel gofal brys a chyfranogiad cyfiawnder troseddol, a chostau anuniongyrchol, y rheiny sydd o ganlyniad i weithredoedd o drais, fel llai o enillion a cholledion cynhyrchu o waith â thâl neu ddi-dâl. Canfu adolygiad gan y WHO ar ddimensiynau economaidd trais rhyngpersonol⁶ mai’r costau uniongyrchol a nodir yn fwyaf cyffredin oedd y systemau meddygol, cyfreithiol a chosbol yn cynnwys plismona a charcharu.

Costau anuniongyrchol

Yn cynnwys effeithiau hirdymor trais ar gyflawnwyr a diodeffwyr, fel cyflogau coll, costau sy’n gysylltiedig ag anabled hirymor, costau seicolegol, costau gofal cymdeithasol a briodolir i lochesau menywod, cost ar werth tai a diffyg buddsoddiad mewn ardaloedd lle mae llawer o drais.

Diweddarodd dadansoddiad gan Ysgol Economeg Llundain ffigurau blaenorol y Swyddfa Gartref oedd yn amcangyfrif mai cyfanswm cost economaidd a chymdeithasol troseddau treisgar yng Nghymru a Lloegr yn 2004 oedd £26.9 biliwn⁷, i ddangos mai cyfanswm cost trais yn 2009 oedd £29.9 biliwn⁵; yn fras y pen gallai'r ffigur hwn fod mor uchel â £1.5 biliwn ar gyfer Cymru. Priodolir y rhan fwyaf o'r costau hyn i ddiodefwrwr troseddau treisgar; fodd bynnag, roedd cost sylweddol i'r sector cyhoeddus yn cynnwys y GIG hefyd yn amlwg oherwydd amcangyfrifwyd bod tua £2.9 biliwn wedi cael ei wario ar ymdrin â chanlyniadau corfforol a meddyliol troseddau treisgar, a bod £4.3 biliwn pellach wedi cael ei wario yn y system cyfiawnder troseddol.

Amcangyfrifodd y Swyddfa Gartref fod cost trais yn gysylltiedig ag alcohol i gymdeithas, yn cynnwys gwasanaethau cymdeithasol, yn 2011/2012 ar draws y DU yn £21 biliwn yn flynyddol⁸, gyda thua dwy filiwn o ymweliadau ED y credwyd eu bod yn gysylltiedig ag alcohol, sydd yn rhoi baich sylweddol ar y GIG⁹.

Amcangyfrifodd astudiaeth yn 2008 oedd yn canolbwyntio ar gost trais domestig i'r DU fod y gost tua £16 biliwn¹⁰. Roedd y ffigur hwn yn cynnwys amcangyfrif o'r gost i'r wladwriaeth o £4 biliwn, cost i gyflogwyr o £2 biliwn, a chostau diodefwrwr dynol o £10 biliwn. Fodd bynnag, mae'n debygol bod y ffigur hwn wedi ei danamcangyfrif oherwydd y diffyg hysbysu ynghylch trais domestig.


Mae costau a chanlyniadau trais, i'r unigolyn a chymdeithas ehangach, yn sylweddol, ond mae'n debygol ei fod wedi ei danamcangyfrif am nad yw llawer o achosion o drais yn cael eu cofnodi, ac yn hynny o beth, mae'n anodd amcangyfrif y gost yn gywir.

1.2 Rhannu data ar gyfer ataliaeth

Mae tanhysbysu ynghylch troseddau treisgar ar draws y DU a gwledydd eraill yn sylweddol. Yn draddodiadol, mae mecanweithiau ar gyfer cofnodi trais wedi dibynnu ar ddata troseddau a gofnodir gan yr heddlu, yn nodedig, nid yw'r heddlu yn cael eu hysbysu ynghylch nifer fawr o ddigwyddiadau treisgar; canfuwyd mai dim ond 25%-50% o ymosodiadau a gofnodwyd ymysg data bwrdd iechyd sydd hefyd yn cael eu cofnodi gan yr heddlu¹². Gan fod rhai o'r digwyddiadau treisgar mwyaf difrifol yn arwain at ymweliad â'r ED neu dderbyn i'r ysbyty, mae ystyriaeth gynyddol wedi cael ei rhoi i'r gwerth y gall data iechyd ei ychwanegu at wybodaeth yr heddlu o drais yn lleol, gan lywio gweithredu cenedlaethol a lleol i atal trais ar lefel gymunedol^{11,12,14}.

Gellir defnyddio data iechyd dienw i lywio ymyriadau ac atal trais. Gallai data am ddemograffeg ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau a mathau o drais gael eu dadansoddi i lywio gwaith atal trais ehangach ar lefelau unigolion, cydberthynas a chymunedol^{13, 14}.

Mae rhannu data wedi helpu i adnabod cymunedau sydd â'r perygl mwyaf; llenwi bylchau mewn gwasanaeth, gwella systemau monitro lle bo angen a dangos effeithiolrwydd yr ymyriadau hyn yn well trwy edrych ar y ffordd yr oedd y data'n darparu newidiadau dros amser.



Nododd dadansoddiad o ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau ym Mryste¹⁵, ynghyd â data'r heddlu, leoliadau risg uchel ar gyfer ymosodiadau yn seiliedig ar amllder ymweliadau ag ED. Yn dilyn ymyrraeth heb ei nodi, dangosodd yr astudiaeth ostyngiad mewn ymweliadau ag ED oherwydd ymosodiadau a hunan-niwed yn ymwneud ag alcohol. Awgrymodd adolygiad systematig o effeithiolrwydd ymyriadau ar lefel gymunedol i leihau trais yn gysylltiedig ag alcohol, yn seiliedig ar rannu data ED, ostyngiadau sylweddol mewn ymosodiadau ac ymweliadau ag ED ar ôl yr ymyriadau¹⁷.



Mae ystyried data ED ynghyd â gwybodaeth a gasglwyd yn barod gan systemau cyfiawnder troseddol wedi cael ei gydnabod fel offeryn pwysig i lywio'r gwaith o ddatblygu, gweithredu a gwerthuso mentrau atal trais^{16, 18}.

Dangosodd astudiaeth arbrofol a dadansoddiad cyfres amser o bartneriaeth atal trais amlasiantaeth wedi ei arwain gan iechyd ostyngiad sylweddol yn y perygl o drais ar draws Caerdydd o'i chymharu â dinasoedd eraill ar ôl cyflwyno Rhaglen Atal Trais Caerdydd (CVPP). Yn ei dro, arweiniodd hyn at ostyngiad sylweddol mewn derbyniadau i'r ysbyty yn gysylltiedig â thrais¹⁹. Llywiodd y CVPP strategaethau plismona wedi eu targedu a strategaethau cymunedol eraill trwy gyfuno data a gasglwyd mewn ED yn ogystal â gwybodaeth yr heddlu i ddarparu data ar "ganolfannau"

trais yn cynnwys adeiladau penodol, mathau o drais (fel dieithryn, cydnabod a domestig) a'r arfau a ddefnyddiwyd. Roedd y strategaethau a ddefnyddiwyd mewn ymateb i wybodaeth data cydgysylltiedig yn cynnwys addasiadau didrafferth i lwybrau rheoli'r heddlu i ymyrryd mewn lleoliadau ac ar adegau penodol fel y nodwyd gan y data, targedu adeiladau â thrwydded oedd yn peri problemau a defnyddio teledu cylch cyfyng (CCTV) mewn mannau lle'r oedd y cyhoedd yn agored i niwed¹⁸. Yng Ngogledd Lloegr, sefydlwyd y Grŵp Gwybodaeth am Drawma ac Anafiadau (TIIG) yn 2002 fel menter hirdymor i wella argaeledd a'r defnydd o ddata anafiadau ar draws yr ardal; gyda ffocws penodol ar rannu data ar alcohol ac ymweliadau ag ED oedd yn gysylltiedig ag alcohol a thrais. Cafodd y wybodaeth hon ei rhannu gyda phartneriaid lleol i lywio gweithgaredd atal a phlisma wedi ei dargedu; dros gyfnod o chwe blynedd, gwelwyd gostyngiad o 35.6% mewn ymweliadau ag ED oedd yn gysylltiedig ag ymosodiadau¹¹.

Mae parhau i rannu data ED sy'n cael ei gasglu fel mater o drefn yn rhoi gwybodaeth i'r partneriaid ddatblygu a thargedu gweithgareddau atal trais trwy roi mwy o wybodaeth am ddemograffeg cleifion a'r mathau o drais i lywio gwaith atal trais ehangach.



1.3 Trosolwg o effeithiolrwydd ymyriadau ar gyfer atal trais

Mae'r adran hon yn rhoi tystiolaeth o adolygiad a wnaed gan PHW ar effeithiolrwydd ymyriadau ar gyfer atal neu leihau trais.

Nod yr adolygiad oedd archwilio'r dystiolaeth wyddonol o astudiaethau ar draws y boblogaeth yn gyffredinol o dystiolaeth sy'n bodoli am hap-dreialon wedi eu rheoli neu dreialon wedi eu rheoli, neu ymyriadau lefel polisi effeithiol penodol ar gyfer trais.

Gellir defnyddio canlyniadau'r adolygiad hwn i lywio atebion lleol mewn ymateb i'r dadansoddiad o ddata trais ar gyfer De Cymru. Mae Tabl 1 yn rhoi trosolwg o'r astudiaethau, yn cynnwys y math o astudiaeth, y sampl, yr ymyrraeth a'r rheolaeth, ac a oedd digon o effaith neu beidio. Am fanylion am y fethodoleg a'r meini prawf dethol, gweler Atodiad 1.

Nodwyd cyfanswm o 15 o astudiaethau, ac ar ôl dethol y rheiny oedd yn briodol ac yn ddigon cadarn o ran dyluniad, cafodd 12 eu cynnwys yn yr adolygiad. Roedd tair astudiaeth yn canolbwyntio ar drais oedd yn gysylltiedig ag alcohol ac economi'r nos a chanfuwyd effaith ymyrryd sylweddol neu gymedrol o ran lleihau trais ac ymosodedd. Roedd yr ymyriadau'n cynnwys archwiliadau o ffactorau risg ar gyfer trais fel amlygrwydd a goleuo, iechyd a diogelwch, gwylidwriaeth, rheoli drysau, polisi gwydrau, a sut mae polisi'r adeilad yn cyrraedd staff rheng flaen. Nododd asesiadau o'r ffactorau hyn ffyrdd o leihau'r perygl amgylcheddol o drais ynghyd â hyfforddiant ymwybyddiaeth staff a rheolwyr.

Gwnaed cynlluniau gweithredu wedi eu teilwra ar gyfer adeiladau risg uchel gydag ymweliadau dilynol i archwilio a oedd eu gweithredu yn gysylltiedig â gostyngiad o ran trais. Darparwyd hyfforddiant a deunydd cyfarwyddiadol ar y we ynghyd â ffilmiau addysgol hefyd i hysbysu staff yr adeilad am leihau niwed ac i roi arweiniad ar y ffordd y gall staff helpu i leihau'r alcohol sy'n cael ei yfed a thrais.

Archwiliodd tri arolwg systematig a gwblhawyd yn y Deyrnas Unedig (DU), Awstralia a De Affrica, y dystiolaeth o effaith ymyriadau a pholisïau alcohol ar drais partneriaid mynwesol (IPV)^{22,23,25}.

Dangosodd yr adolygiadau mai dim ond un astudiaeth, a gynhaliwyd yn Unol Daleithiau America (UDA), wnaeth ganfod perthynas arwyddocaol rhwng pris alcohol a IPV²⁵.

Canfu gweddill yr astudiaethau bod prisio a threthiant ar lefel poblogaeth yn gysylltiedig â thystiolaeth wan neu ddim dystiolaeth o gwbl ar gyfer newidiadau i bris alcohol yn dylanwadu ar achosion o IPV²². Canfu bod cyfyngu oriau gwerthu yn effeithiol yn lleihau yfed gormod o alcohol; nid oedd llawer o dystiolaeth fodd bynnag i awgrymu bod hyn yn dylanwadu'n gadarnhaol ar achosion o IPV.

Fodd bynnag, roedd y canlyniadau'n dangos bod dwysedd uwch o fannau oedd yn gwerthu alcohol yn gysylltiedig â chyfraddau trais uwch²⁵; felly gall rheoli nifer y lleoliadau â thrwydded mewn ardal benodol fod yn gydran effeithiol yn yr ymagwedd tuag at leihau trais. Canfu ymyriadau IPV oedd yn cynnwys cwricwlwm ar ddiogelwch personol, rhywioldeb, datrys problemau, sgiliau cyfathrebu, anghydraddoldebau grym y rhywiu a chydran gymunedol ar gyfer hyfforddi darparwyr gwasanaeth i gefnogi dioddefwyr IPV ostyngiad yn yr achosion a nodwyd o erledigaeth a chyflawni IPV corfforol a rhywiol ar ôl yr ymyrraeth, yn arbennig ymysg pobl ifanc²⁴.

Roedd yr ymyriadau mwyaf llwyddiannus wedi eu lleoli mewn lleoliadau lluosog (ysgol a chymuned) ac yn canolbwyntio ar oedolion allweddol yn amgylchedd y glasoed (athrawon, rhieni ac aelodau eraill o'r gymuned); gyda'r gydran allweddol o fynd i'r afael â sgiliau cydberthynas.

Yr ymyriadau mwyaf llwyddiannus hefyd oedd y rheiny oedd yn parhau am fwy o amser.

Roedd pedair ymyrraeth yn targedu trais ieuencid yn benodol²⁶⁻²⁹ (tri yn yr UDA) ac yn edrych ar neilltuo rheolwr achos neu fentor i ieuencid wedi eu hanafu oedd yn mynychu adran frys. Asesodd y mentoriaid yr ieuencid ac atgyfeirio i ystod o wasanaethau cymorth (yn cynnwys rhaglenni addysg, iechyd meddwl a rheoli dicter) gyda chyfarfodydd wythnosol rheolaidd i gefnogi'r person ifanc. Dangosodd un adolygiad bod ieuencid oedd â mentor yn dangos gostyngiad sylweddol yn yr achosion a nodwyd ganddynt o drais dros gyfnod o 12 mis, gyda pherygl llawer is o gyswllt â chyfiawnder troseddol²⁶.

Canfu adolygiad llenyddiaeth Sugimoto-Matsuda et al's (2014)²⁸ o'r wyth o gydweithrediadau oedd yn canolbwyntio ar atal trais oedd yn newid polisi sefydliadol, bod saith wedi eu hanelu at ieuencid mewn ysgolion uwchradd. Mae'r adolygiad yn awgrymu bod lleoliadau addysgol yn lleoliadau delfrydol ar gyfer datblygu rhaglenni/gweithgareddau atal trais ymysg ieuencid oherwydd natur 'mynediad agored' yr amgylchedd i ieuencid, a'r isadeiledd sydd eisoes yn bodoli i gefnogi rhaglenni newydd.

Gyda'i gilydd, mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gellir gweithredu nifer o ymyriadau i atal a lleihau trais. Mae gofyniad hanfodol, fodd bynnag, i ddewis ymyriadau yn dibynnu ar angen er mwyn sicrhau bod y rhaglenni'n ymateb i anghenion cymunedau penodol.

Tabl 1: Astudiaethau yn ymchwilio i effeithiolrwydd ymyriadau ar gyfer atal a lleihau trais

Awdur/ Blwyddyn/ Gwlad	Dyluniad yr astudiaeth	Meini prawf dethol/sampl	Ymyrraeth	Rheolaeth	Effaith sylweddol (Ie(I)/Na(N)) a chanlyniadau
Trais yn ymwneud ag alcohol/economi'r nos					
Graham et al ²¹ 2004 Canada	RCT		Asesiad o'r adeilad i nodi ffyrdd o leihau peryglon amgylcheddol a hyfforddiant staff a rheolwyr (sesiwn dair awr) ar atal ymosoddedd rhag gwaethygu a datrys sefyllfaoedd sy'n peri problem yn ddiogel.	Ei adael i weithredu fel arfer	I: Ymosoddedd cyn v ar ôl yr ymyrraeth v bariau rheoli wedi nodi effaith sylweddol yr ymyrraeth yn lleihau ymosoddedd difrifol a chymedrol.
Moore et al ²⁰ 2012 DU	RCT dwy ochrog paralel	Yr adeilad yn gysylltiedig ag ≥ un digwyddiad treisgar neu wedi ei gofnodi mewn ED mewn cyfnod o 12 mis.	Archwiliad o ffactorau risg a chynllun gweithredu wedi ei deilwra ar gyfer adeilad risg uchel gydag archwiliad olrhain tri mis ac adborth.	Adeilad wedi ei drwyddedu yn amodol ar arferion arferol yr heddlu a'r awdurdod lleol o ran rheoli eiddo â thrwydded.	N: Gwahaniaeth cynnil a parhaus rhwng yr eiddo rheoli ac ymyrraeth a arsylwyd ar ôl yr ymyrraeth.
Moore et al ⁹ 2015 DU	RCT	Adeilad mewn categori tafarn, clwb nos neu westy gyda bar cyhoeddus gydag ≥ un digwyddiad treisgar wedi ei nodi mewn cyfnod o 12 mis gan ddefnyddio data trais a gofnodwyd gan yr heddlu.600 o adeiladau â thrwydded.	Mae ymyrraeth SMILE yn cynnwys ymweliad cychwynnol ac archwiliad risg gan EHP i nodi peryglon hysbys o drais ac archwiliad dilynol yn cael ei drefnu i orfodi newidiadau i'r adeilad lle mae peryglon difrifol wedi cael eu nodi. Cafodd cyngor wedi ei strwythuro ei weinyddu gan EHP ar y ffordd y gellid mynd i'r afael â risg mewn adeilad a'i gefnogi gan ddeunydd ar-lein sy'n darparu fideos addysgol a deunydd cysylltiedig i staff yr adeilad.	Yr adeilad â thrwydded yn destun arferion arferol gan yr heddlu a'r awdurdod lleol i reoli adeiladau â thrwydded.	Dangosodd dadansoddiadau sensitifrwydd sylfaenol ac eilaidd effaith ymyrraeth gyson lle'r oedd y trais a gofnodwyd gan yr heddlu yn cynyddu yn dilyn yr ymyrraeth ac yn dangos dim newid i'r perwyl hwn dros amser. Gwnaeth yr adeiladau hynny a gafodd ail ymweliad dilynol o ganlyniad i argymhellion archwilio cychwynnol newidiadau a awgrymwyd gan EHP. Mae staff adeiladau, yn arbennig y rheiny mewn adeiladau sydd yn dangos mwy o berygl o niwed yn ymwneud ag alcohol, yn annhebygol o fod yn ddibynadwy, yn arbennig os yw'r newidiadau yn wirfoddol, a allai fod yn wir heb ymweliad dilynol. Roedd dadansoddiadau eilaidd pellach, yn cymharu adeiladau lle'r oedd cyngor ysgrifenedig neu lafar wedi cael ei roi gydag adeiladau lle nad oedd unrhyw gyngor wedi cael ei roi, yn cefnogi hyn. Dangosodd y rheiny oedd wedi cael cyngor lefelau is o drais.

RCT=Hap-dreial wedi ei Reoli; EHP=Ymarferydd lechyd yr Amgylchedd; IPV=Trais Partner Mynwesol ED=Adrannau Brys; CM=Rheolwr Achos; VAWG=Trais yn Erbyn Menywod a Merched; GTP= Rhaglenni Hyfforddiant Grŵp; CBT=Therapi Ymddygiadol Gwybyddol

Awdur/ Blwyddyn/ Gwlad	Dyluniad yr astudiaeth	Meini prawf dethol/sampl	Ymyrraeth	Rheolaeth	Effaith sylweddol (le(I)/Na(N)) a chanlyniadau
Trais Domestig/Partner Mynwesol					
Wilson et al ²² 2014	Adolygiad systematig	Adolygiadau yn archwilio a yw ymyriadau / polisiau alcohol yn gysylltiedig â lleihau; nodwyd 21 o astudiaethau			Canfu astudiaethau prisio a threthiant ar lefel poblogaeth dystiolaeth wan neu ddim dystiolaeth o gwbl bod newidiadau i brisiau alcohol yn dylanwadu ar IPV. Dangosodd polisiau neu ymyriadau ar lefel gymunedol (fel oriau gwerthu, dwysedd mannau'n gwerthu alcohol) dystiolaeth wan o gysylltiad ag IPV. Canfu RCT o raglenni trin alcohol a thrais ar y cyd ar gyfer cyflawnwyr IPV effeithiau cadarnhaol o ran lleihau IPV ar gyfer PIV yn ymwneud ag alcohol.
De Koker et al ²⁴ 2014	Adolygiad systematig	RCT oedd yn gwerthuso ymyriadau ar gyfer atal cyflawni ac erledigaeth unrhyw fath o IPV ymysg y glasoed; roedd yr ymyriadau wedi eu lleoli mewn ysgolion, lleoliadau cymunedol neu glinigau; wyth erthygl yn adrodd ar chwe RCT.	Roedd pob ymyrraeth yn cynnwys cwricwlwm yn cynnwys diogelwch personol, rhywioldeb, datrys problemau'n ymwneud ag iechyd neu sgiliau cyfathrebu ac yn cynnwys ffocws ar anghydraddoldebau grym y rhywiâu. Roedd y rheiny oedd yn cyflenwi'r rhaglen yn cynnwys athrawon, atwrneiod, staff ysgol a hyfforddwyr chwareon. Roedd cydrannau ychwanegol i rai o'r ymyriadau yn cynnwys cydran gymunedol o hyfforddiant ar gyfer darparwyr gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu ar gyfer rhoi cymorth i ddi-ddedfwr IPV.		Roedd treialon yn edrych ar ymyriadau oedd yn cynnwys cydrannau amgylcheddol yn nodi llai o gyflawni IPV corfforol a rhywiol ar ôl yr ymyrraeth. Nododd y treial o'r ymyrraeth dosbarth ac ysgol ar y cyd lai o gyflawni ac erledigaeth hefyd ymysg y grwpiau ymyrraeth. Nid oedd yr ymyrraeth yn y dosbarth yn unig yn effeithiol yn lleihau IPV. Mae'r adolygiad yn awgrymu bod ymyriadau IPV cynhwysfawr mewn ysgolion ac yn y gymuned yn effeithiol yn atal cyflawni IPV ac erledigaeth. Roedd yr ymyriadau mwyaf llwyddiannus wedi eu lleoli mewn lleoliadau lluosog (ysgol a chymuned) ac yn canolbwyntio ar oedolion allweddol yn amgylchedd y glasgoed (athrawon, rhieni ac aelodau eraill o'r gymuned); gyda'r gydran allweddol o fynd i'r afael â sgiliau cydberthynas. Yr ymyriadau mwyaf llwyddiannus hefyd oedd y rheiny oedd yn parhau am fwy o amser (ni thrafodwyd cyfnodau penodol yn yr adolygiad).

Awdur/ Blwyddyn/ Gwlad	Dyluniad yr astudiaeth	Meini prawf dethol/sampl	Ymyrraeth	Rheolaeth	Effaith sylweddol (le(I)/Na(N)) a chanlyniadau
Rivas et al ²³ 2015	Adolygiad systematig	RCT neu Led-RCT yn cymharu ymyriadau eiriolaeth ar gyfer menywod sydd wedi profi IPV; nodwyd 13 o dreialon	Roedd yr eiriolaeth a ddarparwyd yn seiliedig ar y cysyniad o rymuso; yn cynnwys addysg, cyngor am ddiogelwch a chael mynediad i adnoddau a gwasanaethau cymorth.	Dim ymyrraeth na gofal arferol	Ni: canfu'r adolygiad dystiolaeth ansicr fod eiriolaeth yn lleihau neu'n arwain at atal IPV ar unwaith ar ôl ymyrryd. Fodd bynnag, ni ddangosodd yr astudiaethau unrhw effaith ar gam-drin corfforol nac ansawdd bywyd ar ôl dilyniant ar ôl 12 mis ar gyfer ymyriadau eiriolaeth byr (<12 awr). Fodd bynnag, roedd yr eiriolaeth yn lleihau iselder ymysg menywod oedd yn profi IPV ar ôl yr ymyrraeth oni bai eu bod wedi symud i loches i fenywod: dilyniant 12/24 mis
Kearns et al ²⁵ 2015	Adolygiad	Polisiau alcohol gyda'r nod o effeithio ar IPV; adolygwyd 18 o astudiaethau	Roedd yr ymyriadau'n cynnwys polisiau alcohol oedd yn edrych ar 1) dwysedd manau gwerthu (trwy reolau parthau a thrwyddedu; 2) oriau a diwrnodau gwerthu; a 3) prasio/trethiant		Ymddengys bod dwysedd uwch o fannau gwerthu alcohol yn gysylltiedig â graddau IPV uwch a mathau eraill o drais. Fodd, bynnag, er bod tystiolaeth yn dangos bod newidiadau yn y cyfyngiadau ar oriau gwerthu yn ymddangos yn effeithiol yn lleihau yfed gormod o alcohol, nid oes llawer o dystiolaeth sy'n awgrymu bod polisiau prasio a chyfyngiadau ar oriau a diwrnodau gwerthu yn gysylltiedig â chanlyniadau PIV gwell.
Trais arall (plant/ieuenctid/pobl hŷn)					
Snider et al ²⁶ 2009 Canada/USA	Adolygiad systematig	Gwerthusiadau o raglenni ymyrraeth mewn ysbytai; yn seiliedig ar ofal iechyd; yn targedu ieuenctid (10-24 oed); saith erthygl yn nodi pedair ymyrraeth.	Defnyddiodd pob ymyrraeth reolaeth achosion ED o gleifion wedi eu hanafu'n dreisgar ac yn gysylltiedig yn eang â CM/ mentor a wnaeth asesiad ac atgyfeirio unigolion i ystod o wasanaethau cymorth (fel addysg, iechyd meddwl, rheoli dicter ac ati). Cyswllt am chwe mis gan gyfarfod yn wythnosol yna bob pythefnos.	Astudiaeth 1 – Derbyniwyd rhestr o'r gwasanaethau cymdeithasol oedd ar gael yn yr ardal.	I: Cafodd yr ymyrraeth effaith sylweddol ar ddigwyddiadau a hunangofnodwyd o drais dros 12 mis o'i gymharu â'r prawf rheoli ond nid o ran dychwelyd i ED neu anafu eto. Yr unig wahaniaeth ystadegol arall a ganfuwyd oedd llai o berygl o gyswllt â chyfiawnder troseddol.

Awdur/ Blwyddyn/ Gwlad	Dyluniad yr astudiaeth	Meini prawf dethol/sampl	Ymyrraeth	Rheolaeth	Effaith sylweddol (le(I)/Na(N)) a chanlyniadau
Fellmeth et al ²⁹ 2013	Adolygiad systematig	Dim ond ymyriadau sydd yn rhoi gwybodaeth a sgiliau i'r cyfranogwyr i atal trais cychwynnol neu bellach mewn perthynas (cyfranogwyr 12-25 oed; adolygwyd 38 o astudiaethau roedd 18 yn RCT, 18 yn RCT clwstwr a dau yn lled-RCT.)	Ymyriadau addysgol ac yn seiliedig ar sgiliau wedi eu dylunio i atal trais mewn perthynas ac wrth fynd ar ddêr ymysg y glasoes ac ieuencid ifanc; roedd pum astudiaeth yn cynnwys elfen o hunanamdifffyn.	Ni dderbyniodd y grŵp rheoli unrhyw ymyrraeth na gofal safonol; cafodd grwpiau plasebo hyfforddiant cymorth cyntaf.	Ni: Geilir meintoli effeithiolrwydd ymyriadau i atal trais mewn perthynas ac wrth fynd ar ddêr gan nifer o ganlyniadau gwahanol. Cafodd effeithiolrwydd yr ymyriadau hyn fel y mesurwyd trwy newidiadau yn nifer yr achosion o drais mewn perthynas, newid mewn ymddygiad, agwedd a gwybodaeth, a'r sgiliau amddiffynnol a gafwyd eu hasesu. Ar gyfer pob canlyniad ar wahân i newid mewn ymddygiad, ni ddangosodd y meta-ddadansoddiadau unrhyw dystiolaeth o effaith oedd yn arwyddocaol yn ystadegol. Yn y meta-ddadansoddiad ar gyfer gwybodaeth am drais mewn perthynas, ymddengys bod yr ymyriadau wedi cael effaith fuddiol. Fodd bynnag, roedd heterogeneidd sylweddol (I ² = 57%) rhwng yr astudiaethau hyn.
Sugimoto-Matsuda JJ et al ²⁸ 2014 UDA	Adolygiad systematig	Canolbwyntiodd y cydweithrediadau trais ymysg ieuencid presennol ar atalaeth; adolygwyd 23 o gydweithrediadau	Cydweithrediadau 1) Mewnol (dechreuodd y momentwm yn y gymuned); 2) Allanol (sbardunwyd gan asiantaeth allanol); neu bolisi (gorfodwyd yn ôl y gyfraith)		Cydweithrediadau a sbardunwyd yn fewnol oedd fwyaf llwyddiannus yn newid cyfreithiau i fynd i'r afael â thrais ymysg ieuencid, tra bod cydweithrediadau mewnol ac allanol wedi llwyddo i newid polisi ar lefel y sefydliad. O'r wyth cydweithrediaeth a newidiodd polisi sefydliadol, roedd saith wedi eu hanelu at ieuencid mewn ysgolion uwchradd. Mae lleoliadau addysgol yn lleoliadau delfrydol ar gyfer datblygu a phrofi rhaglenni atal trais ymysg ieuencid oherwydd y mynediad agored i ieuencid a'r isadeiledd presennol i gefnogi rhaglenni newydd.

Awdur/ Blwyddyn/ Gwlad	Dyluniad yr astudiaeth	Meini prawf dethol/sampl	Ymyrraeth	Rheolaeth	Effaith sylweddol (le(I)/Na(N)) a chanlyniadau
Arango et al ³⁰ 2014	Adolygiad systematig	Roedd yn rhaid i'r adolygiadau ddefnyddio tystiolaeth ar effeithiau ymyriadau oedd yn ceisio lleihau erledigaeth a chyflawni mathau dethol o VAWG; roedd 58 yn cynnwys adolygiadau.	Gweithgareddau eiriolaeth sydd yn gwella ymwybyddiaeth gyffredinol ymysg cymunedau o faterion yn ymwneud â VAWG; GTP i wella ymwybyddiaeth, gwybodaeth, a/neu sgiliau'n gysylltiedig â VAWG ymysg grŵp o unigolion (er enghraifft myfyrwyr, menywod, dynion, y glasoed); Grŵp Cymorth Seicolegol/ cwnsela yn rhoi cymorth emosïynol, seicolegol a chymdeithasol i oesoewyr trais; Rhaglenni Ymyrraeth Curwr yn canolbwyntio ar leihau atgwympo ymysg cyflawnwyr trais trwy ddefnyddio technegau fel CBT a sesiynau rheoli dictter; Ymweliadau â'r Cartref gan nyrsys, gweithwyr iechyd cymunedol, eiriolwyr, yn cynnwys cydrannau hyfforddiant yn ogystal â monitro cynnydd mewn canlyniadau ymddygiadol dymunol; Rhaglenni Symud Cymunedau sydd yn gweithio gyda chymunedau trwy weithgareddau addysgol sydd yn canolbwyntio ar faterion ehangach fel iechyd, llythrennedd a hawliau dynol, gan alluogi aelodau o'r gymuned i nodi gweithredoedd allweddol y gellir eu gwneud i newid normau ac ymddygiad.		Canlyniadau IPV: Ar y cyfan, mae'r adolygiadau yn canfod bod diffyg effeithiau cadarnhaol i ymyriadau curwr o ran ailgyflawni VAWG. Mae gwasanaethau goroeswyr sydd yn canolbwyntio ar fenywod wedi cael canlyniadau mwy cymysg, ond mae rhai modelau, yn arbennig y rheiny sydd yn cynnwys gwasanaethau eiriolaeth ddwys a chymorth seicogymdeithasol, wedi dangos effeithiau cadarnhaol yn lleihau atgwympo. Canfu ymyriadau cymunedol gydag ieuenctid gwrywaidd a benywaidd sydd mewn perygl, ostyngiad sylweddol o ran cyflawni trais ar ddêd yn yr ymyrraeth o'i gymharu â'r grwpiau rheoli. Ni ddangosodd ymweliadau â'r cartref lawer o dystiolaeth oedd yn cefnogi'r defnydd o'r math yma o ymyrraeth i atal neu leihau IPV. Un ymyrraeth ymweld â'r cartref gyda chanfyddiadau cadarnhaol yw Rhaglen Dechrau lach Hawaii (HSP), a ddyluniwyd i ddechrau i atal cam-drin ac esgeuluso plant ymysg teuluoedd yr ystyriwyd eu bod mewn perygl, sydd wedi canfod bod mamau yn y grŵp ymyrraeth wedi nodi cyfraddau sylweddol is o erledigaeth IPV o'i gymharu â mamau yn y grŵp rheoli. Dangosodd canlyniadau eiriolaeth , fod menywod oedd wedi gweithio gydag eiriolwyr dros y ddwy flynedd wedi profi llawer llai o drais dros amser (p=0.03), eu bod wedi nodi ansawdd bywyd uwch a chymorth cymdeithasol, a'u bod yn cael llai o anhawster yn cael gafael ar adnoddau cymunedol.


Awdur/ Blwyddyn/ Gwlad	Dyluniad yr astudiaeth	Meini prawf dethol/sampl	Ymyrraeth	Rheolaeth	Effaith sylweddol (le(I)/Na(N)) a chanlyniadau
Heinze et al ²⁷ 2015 USA	RCT	Dynodwyd grŵp rheoli neu ymyrraeth yn seiliedig ar gyfeiriad cartref y cyfranogwyr. Roedd gan ardaloedd nodweddion demograffig tebyg ond nid oeddent yn agos at ei gilydd. Arolygwyd y cyfranogwyr i gyd gyda dilyniant llinell sylfaen a deufisol.	Er mwyn mesur y newidiadau yn nata ymosodiadau'r heddlu ac ED cyn ac ar ôl yr ymyrraeth. Roedd yr ymyrraeth yn cynnwys chwe rhaglen i fynd i'r afael ag ymddygiad rhianta a chydberthynas, diwylliant a hanes, ymddygiad peryglus; cwnsela ieuencid unigol ar gyfer y rheiny oedd wedi ymweld ag ED gan edrych ar ddewis unigol ac ymddygiad peryglus gan ganolbwyntio ar sgiliau gwrthod ar gyfer datrys gwrthdaro a rheoli dichter; cydberthynas mentora; cynnal trafodaethau cymunedol gyda'r heddlu i ddatblygu cydberthynas a rhannu dulliau atal trosedd; gwella'r amgylchedd cymunedol trwy gynnal ardaloedd cymunedol a safleoedd gwag. Roedd yr ymyrraeth yn y gymuned, ar sawl lefel o ran ffocws ac wedi ei ddylunio i rymuso trigolion yn eu cymdogaeth.	Cafodd y cyfranogwyr oedd yn byw yn yr ardal leol barmffled adnoddau o wasanaethau yn eu hardal.	Rhoddodd data digwyddiadau'r heddlu ac anafiadau ymosodiadau ED dystiolaeth bod ieuencid yn yr ardal ymyrraeth, o'i gymharu â'r ardal reoli, wedi profi cyfraddau is o drais yn ystod y cyfnod dilyniant o 32 mis ar ôl yr ymyrraeth.

2. Datblygu system wylriadwriaeth a dadansoddi fel mater o drefn ar gyfer ymyrraeth gynnar ac atal trais

Mae'r prosiect yn rhan o gydweithrediaeth barhaus a sefydlwyd ym mis Ebrill 2014 rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW), Heddlu De Cymru (SWP), Byrddau Iechyd De Cymru ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (WAST) ac mae'n llywio Cynllun Lleihau Troseddau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu De Cymru (SWPCC) (2013-2017)³⁸.

Mae'r ymagwedd a gymerir yn y cynllun hwn i fynd i'r afael â thrais yn Ne Cymru yn seiliedig ar dair thema strategol (Ffigur 1).

Ffigur 1: Tair thema strategol SWPCC i fynd i'r afael â thrais yn Ne Cymru



Cafodd y gwaith o ddatblygu'r elfen o 'ddealltwriaeth' o Fodel De Cymru ei wneud gan lechyd Cyhoeddus Cymru mewn partneriaeth â Bwrdd lechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (ABMUHB), Bwrdd lechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (C&VUHB), Bwrdd lechyd Prifysgol Cwm Taf (CTUHB), SWP a WAST.

Nod y prosiect oedd:


- Datblygu system wylidwriaeth a dadansoddi ar gyfer ymyrraeth gynnar ac atal trais ar draws partneriaeth ym maes iechyd a phlismaona;

- Amlinellu mynychder, nodweddion ac effeithiau trais yng Nghymru gan ddefnyddio data o amrywiaeth o ffynonellau;
- Deall ffactorau risg trais (cyflawni ac aflonyddu) i lywio ymyrraeth ac ataliaeth ar lefel leol; a
- Darparu grwpiau atal trais lleol gyda gwybodaeth fanwl am drais ar lefel leol; gan alluogi data ar ddemograffeg cleifion a mathau o drais lywio gwaith atal trais ehangach ar lefelau unigolion, cydberthynas a chymunedol.

2.1 Datblygu a gweithredu prosiectau

At ddibenion plismaona, rhennir De Cymru yn bedair daearyddiaeth weithredol benodol: unedau rheoli sylfaenol Canolog, y Dwyrain, y Gogledd a'r Gorllewin (BCU).

Ffigur 2: Ardal Heddlu De Cymru³⁸



Er bod gan bob BCU nodweddion cyffredin penodol, maent yn amrywio o ran maint; rhai yn gwasanaethu ardaloedd dinesig poblog iawn sydd yn amrywiol o ran ethnigrwydd fel Caerdydd (BCU y Dwyrain) ac Abertawe (BCU y Gorllewin), tra bod eraill yn cynnwys ardaloedd cefn gwlad â phoblogaeth wasgaredig, fel Cwm Rhondda (BCU y Gogledd).

Am y rheswm hwn, ac wrth gydnabod bod plismaona'n wasanaeth sydd yn ei hanfod yn cael ei ddarparu'n lleol, cafodd data ei gyflwyno yn y pedair ardal BCU gan ddefnyddio data lleoliad ymosodiadau a data preswyl dioddefwyr; gan alluogi'r heddlu a phartneriaethau lleol i dargedu strategaethau ymyrraeth ac ataliaeth ar gyfer trais yn eu cymunedau yn fwy penodol.

Roedd Cydlynwyr Perthynas Lleihau Trais a gyflogwyd gan yr SWPCC yn hanfodol i ymgysylltu â phartneriaid iechyd er mwyn cyflenwi'r prosiect. Dangosodd archwiliadau data a gyflawnwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn chwarterol rhwng Medi 2014 ac Awst 2015 anghysondebau o ran eitemau data ac amrywioldeb yn ansawdd y data a gasglwyd ar draws y Blau. Roedd y cydlynwyr perthynas, trwy gyfarfodydd rheolaidd gyda staff ED yn gallu dangos y gwelliant oedd yn angenrheidiol a gwneud argymhellion ar y ffordd y gellid gwella ansawdd y data. Roedd y gwelliant yn y data yn hanfodol i ddarparu'r data o ansawdd oedd yn angenrheidiol i sicrhau cywirdeb o ran adrodd a chynyddu'r negeseuon oedd yn cael eu cyfleu. Yn dilyn y gwelliannau cychwynnol, mae archwiliadau bellach yn cael eu cynnal bob chwe mis ac mae cydlynwyr perthynas yn parhau i gyfarfod â staff derbyn ED i annog gwelliannau pellach. Caiff yr archwiliadau hefyd eu trafod yn y grŵp atal trais lleol lle mae staff iechyd yn gallu gweld buddion eu gwelliannau a lle mae angen gwella data ymhellach.

Ffigur 3: Datblygu Model De Cymru

Sefydlu cytundebau rhannu data rhwng PHW ac ABMUHB, C&VUHB a CTUHB; WAST Heddlu De Cymru. PHW yn cael crynodebau misol o ddata ymosodiadau treisgar wedi eu hadolygu a'u diwygio rhan o'r ffordd drwy'r prosiect i alluogi data lle gellir adnabod personau (PID) i gael ei rannu i ganiatáu trawsgyfeirio unigolion ar draws gwasanaethau.

Cytuno ar isafswm set ddata i'w defnyddio mewn ED i gofnodi digwyddiadau treisgar. Cafodd y set ddata hon ei hymgorffori i Symphony, system casglu data BI newydd a gyflwynwyd yn raddol ar draws ABMUHB o Dachwedd 2016, cyn cael ei gyflwyno'n raddol ar draws Cymru. Er bod mwy o welliannau i'w gwneud i ansawdd data ar draws pob gwasanaeth, mae'r prosiect hwn wedi arwain at gynnydd sylweddol a datblygu momentwm ar gyfer dylanwadu ar systemau casglu data BI

Sefydlu system gadarn fel mater o drefn o rannu data ar draws iechyd a phlisma. Mewn ymateb i archwiliadau data rheolaidd, gwnaeth PHW argymhellion ar y ffordd y gellid gwella ansawdd data. Roedd gwelliant yn y data a ddarperir gan Blau yn amlwg yn yr archwiliad data terfynol ym mis Medi 2015 (Atodiad 2).

Sefydlu proses ar gyfer trosglwyddo data yn ddiogel a sefydlu systemau ffeil diogel i alluogi pob partner i ddarparu PID ar ddiodefwyr ymosodiadau at ddiben trawsgyfeirio.

Systemau glanhau a chysylltu data wedi eu sefydlu i alluogi trawsgyfeirio. Roedd hyn yn galluogi data ED i gael ei drawsgyfeirio yn ôl enw, oed a dyddiad cyrraedd ED y claf neu ddyddiad y digwyddiad yn erbyn data cleifion o WAST a data ddiodefwyr o SWP. Mae hyn wedi galluogi ymchwilwyr i:

- Amcangyfrif nifer y bobl sy'n ymweld ag un, dau neu bob un o'r tri gwasanaeth o ganlyniad i drais.
- Sefydlu nifer y bobl sy'n cael eu heffeithio gan drais nad ydynt yn cael eu canfod gan yr heddlu. Gall y data ddweud wrthym pa leoliadau ac amserau y mae unigolion yn debygol o fod wedi ymgysylltu gwasanaethau a hysbysu'r heddlu o ardaloedd lle mae'n fwy tebygol na fydd yr heddlu'n cael eu hysbysu ynghylch ymosodiadau treisgar.

Sefydlu prosesau i alluogi lleoliad ymosodiad a chartref y diodefwyr i gael eu mapio gan ddefnyddio codau post lleoliad a dwyreiniad a gogleddiad cydlynwyr daearyddol ar gyfer pwynt ar fap. Meddalwedd mapio a ddefnyddir: QGIS (fersiwn 2.6.1) system wybodaeth daearyddol ffynhonnell agored, am ddim.

Cynhyrchu adroddiadau deufisol i hysbysu Grwpiau Atal Trais Lleol. Mae'r adroddiadau'n amlinellu nodweddion allweddol trais ar draws BCU o ran demograffeg diodefwyr ymosodiadau, math o ymosodiadau a lleoliadau penodol.

Mae'r adroddiadau gwyliadwriaeth trais deufisol a gyflwynir i'r grwpiau atal trais lleol yn cynorthwyo'r heddlu a'r gwasanaethau iechyd i ddatblygu a monitro gweithgareddau ymyrraeth ac ataliaeth.

Ffigur 4: Proses adrodd deufisol

1. Yr holl ddata sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiadau gwyliadwriaeth trais lleol a dderbynnir gan PHW.

2. Unwaith y mae PHW wedi cael yr holl ddata gan bartneriaid, bydd yr adroddiadau yn cymryd pythefnos i'w creu ac yn cynnwys:

- Glanhau a dadansoddi data
- Mapio a defnyddio data Geoleoliad
- Ysgrifennu adroddiadau

Mae amserlen adroddiad yn rhoi manylion ynghylch pryd bydd adroddiadau'n cael eu creu, wedi ei lywio gan ddyddiadau cyfarfodydd y Grwpiau Atal Trais Lleol a bwrdd y prosiect.

3. Ar ôl i'r adroddiadau gael eu drafftio, cynhelir cyfarfod rhwng staff SWP, PHW a SWPCC i drafod a therfynu argymhellion sydd wedi eu llywio gan ddata. Ar ôl ymgorffori'r rhain i'r adroddiadau, anfonir yr adroddiadau i gael eu dilysu a chael sylwadau staff PHW a SWPCC.

4. Yn dilyn cymeradwyaeth a dilysu gan dîm y prosiect, anfonir yr adroddiadau at Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a'u lledaenu i bartneriaid ehangach, yn cynnwys y Grwpiau Atal Trais Lleol.

5. Ystyrir adroddiadau gan y Grwpiau Atal Trais Lleol ym mhob un o'r Byrddau Iechyd, gyda chynrychiolaeth gan SWP, timau iechyd y cyhoedd lleol, WAST a phartneriaid cyfiawnder troseddol. Mae staff PHW yn cyflwyno canfyddiadau allweddol yn y grwpiau, gyda thrafodaethau ar y ffordd y gall canfyddiadau ddylanwadu ar ymyrraeth ac ataliaeth.

6. Cedwir cofnod deufisol gan PHW o'r ffordd y mae'r adroddiadau yn effeithio ar ymyrraeth ac ataliaeth a chaiff ei drafod yng nghyfarfodydd bwrdd y prosiect a'r grŵp atal trais lleol.

7. Cynhelir cyfarfodydd misol rhwng PHW a swyddfa PCC i ddiweddarau ynghylch grwpiau a fynychwyd gan bob partner ar lefelau presennol trais yn Ne Cymru.

2.2 Llywio ymarfer

Un o brif nodau'r prosiect oedd sefydlu system gadarn, fel mater o drefn o rannu data ar draws ieched a phlismaona fyddai'n galluogi data trais o ffynonellau lluosog i gael ei ymgorffori er mwyn rhoi gwybodaeth i Grwpiau Atal Trais Lleol fyddai'n

helpu i dargedu gweithgareddau atal trais (gweler Blwch 1). Roedd y prosiect yn rhoi gwybodaeth ychwanegol ar ddemograffeg cleifion a'r mathau o drais i lywio gwaith atal trais ehangach ar lefelau unigol, cydberthynas a chymunedol.

BLWCH 1:



Enghreifftiau o'r adroddiadau a'r data gwyliadwriaeth trais lleol sy'n llywio gweithredu:

- Nododd adroddiadau bigion o ran trais mewn rhai ardaloedd sydd yn hysbys i'r heddlu. Arweiniodd hyn at weithredu cynllun trefnwyr taci i leihau faint o unigolion ar y strydoedd sydd mewn perygl o drais ar ddiwedd y noson.
- Rhoddodd adroddiadau dystiolaeth i sicrhau cynnydd yn narpariaeth Ambiwlans Sant Ioan ar draws ardal CTUHB ar adegau brig yn economi'r nos, er mwyn lleihau baich trais ar adrannau brys.
- Dangosodd adroddiadau lefelau uchel o drais yn economi'r nos. O ganlyniad, cafodd cwrs manwerthu alcohol cyfrifol ar-lein ei gynnig i bob aelod o staff bariau ar draws y ddwy ddinas.
- Dangosodd yr adroddiadau effeithiolrwydd ymyriadau fel y Pwynt Cymorth yn Abertawe

sydd wedi helpu i leihau nifer yr ambiwlansau sy'n cael eu galw allan sy'n cael eu hanfon i ganol dinas Abertawe yn ystod oriau brig economi'r nos.

- Mae mapio data geoleoliad wedi cefnogi'r heddlu i reoli ardaloedd mewn perygl ac mae wedi cael ei ddefnyddio i gefnogi adolygiadau trwyddedu ar gyfer nifer o adeiladau risg uchel. Mae'r adroddiadau wedi cyfrannu at lwyddiant yr heddlu yn gwneud newidiadau i drwyddedau unigol, mae rhai adeiladau wedi gorfod lleihau eu horiau agor, wedi cael adolygiadau uchafswm rhifau, wedi cael eu trwyddedau wedi eu hatal dros dro neu eu diddymu. O ganlyniad, mae nifer o adeiladau wedi cyflwyno tîm rheoli newydd ac wedi ailystyried hyfforddiant staff.

Sefydlodd y prosiect brosesau sy'n galluogi lleoliad yr ymosodiad i gael ei fapio. Gall y data sydd wedi ei fapio adnabod lefelau digwyddiadau stryd ac adeilad penodol a gellir ei ddefnyddio i lywio gweithgaredd gweithredol (gweler Blwch 2).




Dyma'r tro cyntaf yn Ne Cymru i leoliad ymosodiadau ynghyd â chartref dioddefwyr ymosodiadau gael eu mapio i alluogi'r partneriaid sydd yn gysylltiedig ag atal trais, ar lefelau gweithredol a strategol, i dargedu adnoddau mewn ardaloedd â'r perygl mwyaf (gweler Blwch 1). Mae hyn yn galluogi ymyriadau i fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac i gael eu teilwra i gyd-fynd â demograffeg y rheiny sy'n defnyddio'r gwasanaethau yn yr ardal honno.

BLWCH 2

Enghreifftiau o fapio Geoleoliad data ymosodiadau a gymerwyd o adroddiad gwylidwriaeth trais³¹

Map 1:

Nifer y dioddefwyr ag anaf (VWI) yn ôl digwyddiadau rhawd Heddlu De Cymru yn BCU y Dwyrain (Mawrth-Ebrill 16)



Map 2:

Lleoliad ymosodiadau rhawd Canol Dinas Caerdydd (Mawrth-Ebrill 16)

Dioddefwyr VWI Heddlu De Cymru

- <5
- 5
- 6
- 7+

Ymosodiadau sy'n ymweld ag ED

- <5
- 5
- 6
- 7+

Galwadau WAST i gleifion unigol

- <5
- 5+



BLWCH 3

Astudiaeth Achos Pwynt Cymorth - partneriaeth amlasiantaeth sy'n gweithio i leihau traïs

Mae Pwynt Cymorth Abertawe yn gyfleuster triniaeth cymorth cyntaf symudol arbenigol sy'n cael ei redeg gan wirfoddolwyr Sant Ioan Cymru, Swyddogion yr Heddlu, staff nyrsio'r GIG a gwirfoddolwyr sy'n fyfyrwyr ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant yn ninas Abertawe.

Dechreuodd Pwynt Cymorth Abertawe ym mis Medi 2014 ac mae'n gweithredu yn ardal Dinas Abertawe ar nos Fercher a nos Sadwrn rhwng 10pm a 6am. Mae'r gwasanaeth yn ymateb i alwadau 999 sydd wedi eu cyfeirio i Wind Street, Kingsway, Castle Square a Castle Gardens, i gyd wedi eu lleoli yn ardal canol dinas Abertawe.

Nod y prosiect yw lleihau'r baich ar ED a WAST trwy ddarparu triniaeth cymorth cyntaf yn agos at ffynhonnell y digwyddiad. Mae Tabl 2 yn dangos gostyngiad o draean bron (62%) yn nhris WAST yn ymwneud â galwadau rhwng Ion-Medi 2015 o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2014 (cyn i'r Pwynt Cymorth ddod yn weithredol). Mae Tabl 2 hefyd yn dangos gostyngiad sylweddol (73%) yng ngalwadau WAST i ddigwyddiadau'n ymwneud ag ymosodiadau yng nghanol Dinas Abertawe yn ystod oriau gweithredu Pwynt Cymorth Abertawe.

Tabl 2: Galwadau WAST i ardaloedd gweithredol Pwynt Cymorth canol dinas Abertawe (Ion-Medi 2014 ac Ion-Medi 2015)

Disgrifiad o ddigwyddiad WAST	Pob galwad WAST			Galwadau WAST yn digwydd rhwng Mer 10pm-lau 6am a Sad 10pm i Sul 6am		
	Ion-Medi 2014	Ion-Medi 2015	% newid	Ion-Medi 2014	Ion-Medi 2015	% newid
Ymosodiad/yMosodiad rhywiol*	63	24	-62	33	9	-73
Trawma trywanu/saethu â gwn/treiddio*	<5	0	-100	0	0	0
Cwmpo	84	32	-62	34	0	-100
Gorddos/gwenwyno (bwyta)	35	24	-31	19	<5	-95
Anafiadau trawmatig, penodol	29	<5	-86	17	<5	-88
Damweiniau traffig/cludiant	11	8	-27	0	0	0
Cyfanswm	230	99	-57	104	14	-87

* Galwadau'n ymwneud â thrais

Ymddengys bod cyflwyno'r fenter Pwynt Cymorth yng nghanol dinas Abertawe hefyd wedi lleihau ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau. Mae data WAST yn amlygu, yn ystod oriau gweithredol penodol y Pwynt

Cymorth, bod holl alwadau WAST i Wind Street, Kingsway, Castle Square a Castle Gardens wedi gostwng 87% (Tabl 2) rhwng Ion-Medi 15 o'u cymharu â'r un cyfnod y flwyddyn ddiwethaf.

Dangosodd data mapio ED gyda WAST a data'r heddlu fod gostyngiad amlwg mewn ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau a galwadau WAST i ardal Dinas Abertawe ar yr adegau y mae'r fenter Pwynt Cymorth yn gweithredu.



Defnyddiwyd y data hwn i arddangos effeithiolrwydd y Pwynt Cymorth hwn ymhellach er mwyn iddo allu sicrhau cyllid yn y dyfodol ar gyfer ei weithrediad (Gweler Blwch 3).



2.3 Defnyddio data De Cymru

Mae mapio ardaloedd preswyl yn galluogi cymunedau sydd mewn perygl o drais domestig i gael eu hadnabod. Mae'r system adrodd yn tynnu sylw at ardaloedd a allai weld cynnydd sydyn mewn galwadau'n ymwneud ag ymosodiadau i ardaloedd preswyl neu ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau o'r lleoliadau hynny i'w hymchwilio ymhellach. Gellir defnyddio'r wybodaeth hon i lywio gwaith partneriaeth agosach gyda'r byrddau iechyd lleol i ddarparu hyfforddiant i staff gofal iechyd rheng flaen ac adnabod y rheiny sy'n dioddef trais.

Felly'n arwain at welliant mewn systemau ar gyfer atgyfeirio i asiantaethau cymorth perthnasol (a monitro parhaus), yn ogystal â systemau fyddai'n ysgogi gwasanaethau amddiffyn fel y bo'n briodol i leihau digwyddiadau pellach o drais.

Mae wedi bod yn bosibl hefyd creu mapiau amserol i ddangos ar ba adegau y mae ardaloedd lle mae problemau ac ardaloedd risg uchel yn debygol o brofi trais. Mae hyn wedi galluogi adnoddau'r heddlu i fod yn fwy llyfn ac ymatebol i anghenion yr ardal leol gan roi mwy o bresenoldeb yr heddlu yn yr ardaloedd lle mae'r angen mwyaf ac yn ei dro, atal angen pellach.

3. Trais gydag anafiadau yn Ne Cymru

3.1 Trosolwg o ardal Heddlu De Cymru

Mae'r adran ganlynol yn rhoi crynodeb o'r prif bwyntiau ar gyfer dioddefwyr troseddau trais gydag anafiadau (VWI) ac ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau gan ddefnyddio data'n ymwneud â'r math o ymosodiad a lleoliad o ABMUHB, C&VUHB a CTUHB; data dioddefwyr a throseddwyr VWI Heddlu De Cymru; a data galwadau'n ymwneud â thrais WAST.

Casglwyd data o Ebrill 2014 i Fawrth 2016. Ar gyfer pob BCU, cafodd lleoliad ymosodiad ei fapio gan ddefnyddio data enw'r adeilad a gofnodwyd gan ED fel lleoliad yr ymosodiad, data lleoliad anfon/casglu WAST a data lleoliad ymosodiad wedi ei gofnodi gan yr heddlu gan ddioddefwyr dros gyfnod o ddwy flynedd o Ebrill 2014 i Fawrth 2016.

Crynodeb Ardal Heddlu De Cymru (Ebrill 2014 - Mawrth 2016)

- Ar draws Ardal Heddlu De Cymru, cafodd cyfanswm o 20,626 o ddioddefwyr VWI eu cofnodi. Roedd hyn yn gyfwerth â thua 859 o ddioddefwyr y mis (ystod 716 i 959); 31% yn digwydd yn BCU y Dwyrain; 27% yn BCU y Gorllewin; 24% yn BCU y Gogledd a 18% yn y BCU Canolog (Tabl A1^d).
- Cofnodwyd 10,260 o ymweliadau ag ED oherwydd ymosodiadau (Tabl A2). Roedd dros draean (36%) yr holl ymweliadau ag ED oherwydd ymosodiadau yn ED ardal Heddlu De Cymru i ED BCU y Dwyrain; 27%, i BCU y Gogledd; 28%, BCU y Gorllewin; a 9%, BCU Canolog.
- Cofnododd WAST 5,388 o alwadau yn ymwneud â thrais i gleifion unigol (Tabl A3). Roedd galwadau'n ymwneud â thrais yn gymesur uwch yn BCU y Gorllewin; roedd 33% o'r galwadau i BCU y Gorllewin, 28% i BCU y Dwyrain, 23% i BCU y Gogledd a 16% i'r BCU Canolog.
- Cafwyd y ganran uchaf o ddioddefwyr VWI ac ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau ar draws De Cymru yn BCU y Dwyrain. Mae lleoliadau ymosod y digwyddiadau hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar ganol dinas Caerdydd, gyda mwy o achosion rhwng 22:00-03:59, sydd yn dangos patrwm o angen uwch yn yr ardal hon ac yn awgrymu bod economi'r nos o bosibl yn chwarae rhan sylweddol yn cyfrannu at y tebygolrwydd o drais. Cefnogir hyn ymhellach wrth edrych ar gartrefi dioddefwyr VWI. Ar draws ardal Heddlu De Cymru, mae dros bumed (23%, Tabl A4) o'r dioddefwyr yn preswyllo yn BCU y Dwyrain, fodd bynnag digwyddodd 31% o'r ymosodiadau yn y BCU (Tabl A1), sy'n awgrymu crynodiad uwch o unigolion a symudiad dioddefwyr posibl tuag at leoliadau 'adloniant' canol dinas Caerdydd.
- Ar draws y tri gwasanaeth, y BCU Canolog oedd â'r ganran isaf o ran galw.

^d Mae'r holl dablau a ffigurau i gefnogi'r testun trwy gydol yr adroddiad ar gael yn Atodiad 3.

Newidiadau dros amser: Ebrill 2014-Mawrth 2015 ac Ebrill 2015-Mawrth 2016

Cafodd digwyddiadau treisgar eu cymharu dros ddau gyfnod o 12 mis, Ebrill 2014-Mawrth 2015 ac Ebrill 2015-Mawrth 2016. Mae Tabl 3 yn dangos canran y newid ar draws y pedwar BCU a De Cymru yn gyffredinol.

■ Cofnododd Heddlu De Cymru bod dioddefwyr troseddau VWI wedi cynyddu ar draws pob BCU dros y ddau 12 mis. Cafwyd gostyngiad yn yr ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau a galwadau WAST yn ymwneud ag ymosodiadau ar draws pob BCU yn ystod yr un cyfnod

– BCU y Dwyrain gafodd cynnydd lleiaf o ran canran y dioddefwyr VWI a'r ganran uchaf o ostyngiadau yn nifer yr ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau a galwadau WAST yn ymwneud â thrais ar draws De Cymru. Mae hyn yn adlewyrchu parhad gweithredu rhaglenni atal trais presennol sy'n gweithredu yng Nghaerdydd, fel Model Caerdydd^e.

– Roedd y cynnydd mwyaf o ran canran VWI yn y BCU Canolog; hefyd yn cael ei adlewyrchu yn yr ardal â'r gostyngiad isaf o ran canran yn nifer yr ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau.

Tabl 3: Newid o ran canran yn y trais a gofnodwyd gan yr Heddlu, Ambiwllans ac Adrannau Brys ar draws De Cymru Ebrill 2015-Mawrth 2016 o'i gymharu ag Ebrill 2014-Mawrth 2015

BCU	Dioddefwyr VWI a gofnodwyd gan yr Heddlu (% newid)	Ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau (% newid)	Galwadau WAST yn ymwneud ag ymosodiadau (% newid)
Canolog	+11	-6	-11
Y Dwyrain	+4	-17	-23
Y Gogledd	+8	-11	<-1
Y Gorllewin	+9	-10	-18
Cyfanswm Heddlu De Cymru	+8	-13	-15

Demograffeg allweddol trais ar draws De Cymru

■ Ar draws y tri gwasanaeth roedd mynychder uwch o ddioddefwyr gwrywaidd trais a gofnodwyd; nododd ED fod 68% o'r ymosodiadau ar ddynion; nododd Heddlu De Cymru bod 52% o'r dioddefwyr VWI yn wrywaidd a nododd WAST bod 60% o alwadau'n ymwneud â thrais ar gyfer dynion.

■ Ymysg ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau, y categori oed mwyaf amlwg oedd 18-24 oed (30%); roedd 28% yn 25-34 oed. Y categori oed mwyaf amlwg ar gyfer VWI Heddlu De Cymru a galwadau WAST oedd 25-34 oed (y ddau ar 18%). Fodd

bynag, dylid dehongli'r data yn ofalus iawn am fod oed 34% o ddioddefwyr VWI Heddlu De Cymru yn anhysbys ac roedd 40% o alwadau WAST gyda data am oed ar goll.

■ Lleoliad stryd yw'r lle mwyaf amlwg ar gyfer y rheiny sy'n ymweld ag ED o ganlyniad i ddioddef ymosodiad (Ffigur A5).

■ O ystyried yr holl ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau yn Ne Cymru, y categorïau amser mwyaf amlwg o ran cyrraedd ED oedd 00:00-01:59 a 02:00-03:59, y ddau ar 12% (Tabl A6).

^e Yn 2001, datblygodd Grŵp Ymchwil Trais a Chymdeithas Model Caerdydd lle'r oedd y wybodaeth ddiennw oedd yn cael ei chasglu gan unigolion oedd yn ymweld â lleoliadau damweiniau ac achosion brys, oedd wedi cael eu hanafu trwy drais, yn cael ei rhannu gan yr heddlu ac awdurdodau lleol er mwyn llywio rhaglenni atal trais. Cafodd Partneriaethau Lleihau Troseddau ac Anhrefn eu creu rhwng staff ED a'r heddlu er mwyn rhannu gwybodaeth am leoliad ac amser gweithredoedd treisgar, yr arfau a ddefnyddiwyd a gwybodaeth ddemograffig berthnasol arall. Mae'r wybodaeth yma wedi helpu'r heddlu i dargedu ymdrechion atal trais lle y dylent fod yn monitro a hefyd pa fariau a chlybiau nos sydd yn amlwg o ran anafiadau ymosodiadau.

3.2 Trawsgyfeirio

Cafodd data lle gellir adnabod y person (PID) yn ymwneud ag ymweld ag ED oherwydd ymosodiad o ABMUHB, CTUHB a C&VUHB ei drawsgyfeirio yn erbyn PID dioddefwyr VWI Heddlu De Cymru yn ôl enw'r claf, oed a naill ai dyddiad cyrraedd yr ED neu ddyddiad y drosedd VWI. O ganlyniad i ymchwiliad llawn i'r dull mwyaf priodol o drawsgyfeirio a fyddai'n cael y canlyniadau gorau o ran paru (gweler Atodiad 4), y strategaeth fwyaf priodol a fabwysiadwyd ar y ddwy lythyren gyntaf o'r enw cyntaf + blaenlythyren y cyfenw + data ymweliad ag ED/dyddiad cofnodi'r drosedd (+/-1 diwrnod).

Er bod y gyfradd cwblhau data ar gyfer y categorïau a nodir uchod yn uchel ar draws yr holl asiantaethau ar >99%, dylid ystyried y cyfyngiadau canlynol wrth ddehongli'r canfyddiadau:

- Efallai nad yw'r dyddiad cyrraedd yr ED a nodir yr un peth â 'dyddiad y drosedd' VWI a gofnodwyd gan yr heddlu. Gall fod yn bosibl y bydd dioddefwyr posibl VWI yn mynd i ED am driniaeth yn ddiweddarach, neu i'r gwrthwyneb, ac felly ni chaiff ei gofnodi fel mynd at fwy nag un gwasanaeth ar adeg y cyswllt cychwynnol.


- Er bod ymweliadau ag ED oherwydd ymosodiad wedi cael eu cofnodi gan staff ysbytai fel ymosodiad wth gyrraedd yr ED, dylid ystyried na fyddai disgwyl bod yr heddlu wedi cael eu cynnwys ym mhob digwyddiad o reidrwydd.
- Gallai nifer o ddiodeffwyr VWI Heddlu De Cymru fod wedi mynd i gael triniaeth mewn ED y tu allan i ardal Heddlu De Cymru; neu gallai'r rheiny a ddiodeffodd ymosodiad mewn ardal heddlu gyfagos fod wedi mynd i ED yn ardal Heddlu De Cymru. Fodd bynnag, mae'r nifer yn debygol o fod yn fach iawn, tua 1%.

Ar gyfer y cyfnod o 24 mis rhwng Ebrill 2014-Mawrth 2016, roedd dros draean (36%; Tabl 4) o'r holl ymweliadau ag ED oherwydd ymosodiadau yn Ne Cymru yn hysbys i Heddlu De Cymru fel diodeffwr VWI naill ai ar ddyddiad cyrraedd yr ED neu un diwrnod y naill ochr i'r dyddiad y cofnododd yr heddlu'r drosedd; mynychodd 6,509 posibl o ddiodeffwyr ED oherwydd ymosodiad nad oedd yn hysbys i'r heddlu.

Tabl 4: Nifer y diodeffwyr ymosodiadau wnaeth hysbysu un neu'r ddau wasanaeth (Ebrill 2014-Mawrth 2016)

ED BCU	Nifer yr ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau	Nifer yr ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau sydd yn hysbys i Heddlu De Cymru	% yr ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau sydd yn hysbys i Heddlu De Cymru
Canolog	927	215	23
Y Dwyrain	3744	1653	44
Y Gogledd	2756	1186	43
Y Gorllewin	2839	662	23
Cyfanswm	10263	3716	36

Ffigur 5: Ymweliadau ag adrannau brys yn sgil ymosodiadau sydd yn hysbys i Heddlu De Cymru ar y dyddiad cyrraedd (Ebrill 2014 - Mawrth 2016)



Mae'n hysbys iawn nad hysbysir am bob trosedd dreisgar, yn arbennig trais domestig. Dylai cyfeiriad prosiectau i'r dyfodol roi dadansoddiad pellach o'r data trawsgyfeirio i sefydlu lleoliadau penodol ymosodiadau a'r mathau o drais a brofir gan y rheiny nad ydynt yn hysbysu'r heddlu yn eu cylch, fydd yn ei dro yn helpu i roi darlun mwy cyflawn o droseddu ar draws De Cymru.

3.3 Nodweddion trais uned reoli sylfaenol De Cymru

Crynodeb o'r Uned reoli Sylfaenol Ganolog (Ebrill 2014 - Mawrth 2016)

- Ni welodd y BCU Ganolog unrhyw batrwm o ran nifer yr ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau o'i gymharu â'r un mis yn y flwyddyn flaenorol ac eithrio Mai a Rhag-Chwe (dangosodd pob BCU arall ostyngiad, Ffigur A7).
- Roedd cyfran uwch o'r rheiny oedd wedi ymweld ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau a galwadau WAST yn ymwneud â thrais yn wrywaidd (gwrywaidd, 65%; benywaidd, 61%). Nid oedd unrhyw wahaniaeth o ran rhyw ar gyfer dioddefwyr AWI a gofnodwyd gan Heddlu De Cymru.
- Ar draws y tri gwasanaeth roedd mynychder uwch o ddiodefwyr 25-34 oed (Ffigur A8). Roedd diodefwyr yn y categori oed hwn yn fwy tebygol o fod yn fenywaidd ar draws pob un o'r tri gwasanaeth.
- Roedd ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau ar ddydd Sadwrn yn rhoi cyfrif am bron hanner yr holl ymweliadau ag ED (38%; Tabl A6).
- Ar y cyfan, cyrhaeddodd 17% o ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau yn ystod oriau brig economi'r nos ar benwythnosau^g.
- Cyrhaeddodd ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau brig rhwng 10:00-13:59 (14%). Efallai nad yw hyn yn berthnasol i amser yr ymosodiad gan fod amserau galwadau WAST yn cyrraedd y brig rhwng 22:00-23:59, sy'n awgrymu y gallai unigolion fod yn aros tan y bore wedyn cyn mynychu ED (Ffigur A9).
- Roedd ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau yn amrywio yn ôl oed ac amser; cyrhaeddodd 24% o'r rheiny oedd yn <18 oed rhwng 12:00-13:59. Mynychodd bron traean (30%) o ddiodefwyr ymosodiadau oedd yn 18-24 oed a 27% oedd yn 25-34 oed ED rhwng 22:00-03:59, tra bod 15% o bobl dan 18 oed wedi mynychu yn yr amser yma. (Tabl A5).
- Nododd bron traean (30%) o'r rheiny a fynychodd ED yn ymwneud ag ymosodiadau bod yr ymosodiad wedi digwydd ar y stryd (Tabl A7). Mae cyfran yr ymosodiadau stryd wedi gostwng yn raddol yn ystod y cyfnod o 24 mis.
- Mae'r duedd gyffredinol o leoliadau ymosodiadau BCU Ganolog ar gyfer ymweliadau gan ddynion yn dangos mai ymosodiad ar y stryd yw'r mwyaf amlwg (Ffigur A10). I fenywod oedd yn ymweld at ED yn ymwneud ag ymosodiadau, ymosodiadau yn y cartref yw'r mwyaf amlwg (Ffigur A11).
- Mae amrywiadau rhwng y ddau ryw yn bodoli o ran lleoliadau ymosodiadau, nododd 36% o'r dynion a 17% o'r menywod oedd yn ymweld ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau bod yr ymosodiad wedi digwydd ar y stryd, tra bod 31% o fenywod a 17% o ddynion wedi nodi iddynt ddiodef ymosodiad yn eu cartref eu hunain (Tabl A7).
- Mae cyfran uwch o ddynion yn ymweld ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau yn nodi eu bod wedi diodef ymosodiad gan gydnabod neu ffrind, i fenywod a fynychodd, eu partner oedd y person hwn (Ffigur A12 a Ffigur A13). Mae angen bod yn ofalus wrth ddechongli data perthynas yr ymosodwr ar gyfer y BCU Ganolog oherwydd y data coll/anhybys ar gyfer ymwelwyr ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau (72% a 42% yn y drefn honno).
- Mae'r adeiladau a nododd eu bod wedi cael y digwyddiadau uchaf o ymosodiadau yn ôl ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau fel y cyflwynir yn Nhabl A8.
- Roedd rhawd yr heddlu gyda'r nifer uchaf o ddiodefwyr VWI yn cynnwys Morfa (348), Cadoc (221), Buttrills (181), Careu (136) a Corneli (130).
- Y rhawd gyda'r nifer uchaf o alwadau WAST yn ymwneud â thrais i glaf unigol oedd Morfa (78), Cadoc (44), Illtyd (43), Court (42) a Castleland (37).
- Y rhawd â'r nifer uchaf o ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau oedd Morfa (32), Bracla (23), Coity (14) a'r Pîl (13).
- Ar draws y tri gwasanaeth, rhawd Morfa yw'r ardal sy'n profi'r trais mwyaf o hyd. Fodd bynnag, ni ddangosodd pob rhawd arall sydd â nifer uchel o ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau fel rhawd â mynychder uchel o drais ymysg Heddlu De Cymru a WAST.

^g Mae oriau brig economi'r nos ar benwythnosau yn cael eu cyfrif fel dydd Gwener 22:00-dydd Sadwrn 03:59 a dydd Sadwrn 22:00-dydd Sul 03:59

Crynodeb o uned reoli sylfaenol y Dwyrain (Ebrill 2014-Mawrth 2016)

- Cafwyd gostyngiad yn BCU y Dwyrain ar draws y rhan fwyaf o fisoedd yn nifer yr ymwelwyr ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau o'i gymharu â'r un mis y flwyddyn flaenorol (Ffigur A14).
- Ar draws bob un o'r tri gwasanaeth, roedd dioddefwyr ymosodiadau yn fwy tebygol o fod yn wrywaidd (ystod o 72% ar gyfer ED i 54% ar gyfer dioddefwyr VWI Heddlu De Cymru).
- Ar draws bob un o'r tri gwasanaeth, roedd dioddefwyr yn fwy tebygol o fod yn 15-24 oed (Ffigur A15). Roedd ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau ar ddydd Sadwrn a dydd Sul yn rhoi cyfrif am bron hanner yr ymweliadau ag ED (45%; Tabl A6).
- Roedd ymweliadau ag ED yn cyrraedd y brig rhwng 02:00-03:59 (15%); tra bod oriau brig digwyddiadau WAST rhwng 00:00-01:59 (Ffigur A16).
- Roedd ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau ar ddydd Sadwrn a dydd Sul yn rhoi cyfrif am bron hanner yr holl ymweliadau ag ED (45%; Tabl A6).
- Ar y cyfan, roedd 22% o'r ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau yn BCU y Dwyrain yn cyrraedd yn ystod oriau brig economi'r nos ar benwythnosau (Tabl A6).
- Roedd ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau yn amrywio yn ôl oed ac amser; roedd bron hanner (48%) y bobl 18-24 oed yn ymweld ag ED rhwng 22:00-03:59, tra bod 25% o bobl <18 oed yn ymweld ag ED am anafiadau'n ymwneud ag ymosodiadau yn ystod yr un cyfnod o amser (Tabl A5).
- Nododd dros draean (36%) o ymwelwyr ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau bod y digwyddiad wedi digwydd ar y stryd. Nodwyd bod 15% o'r ymosodiadau wedi digwydd mewn adeilad â thrwydded (Tabl A7). Yn wahanol i ardaloedd eraill sydd wedi gweld gostyngiad neu sydd wedi aros yr un peth o ran digwyddiadau ar y stryd fel lleoliad yr ymosodiad, cynyddodd cyfran yr ymosodiadau ar y stryd o 35% i 38% o'i gymharu ag Ebrill 14-Mawrth 15 i Ebrill 15-Mawrth 16 (Tabl A9).
- Mae amrywiadau rhwng y rhywiau o ran mathau o leoliadau ymosodiadau yn bodoli, mae 42% o ddynion a 23% o fenywod a fynychodd ED yn nodi bod yr ymosodiadau wedi digwydd ar y stryd' tra bod 23% o fenywod a 6% o ddynion a fynychodd yn nodi eu bod wedi dioddef ymosodiad yn eu cartref eu hunain (Ffigurau A17 a A18). Fodd bynnag, cafwyd cynnydd sylweddol yng nghyfran y menywod a fynychodd ED oedd yn nodi ymosodiadau ar y stryd, sydd bellach yn golygu mai'r stryd yw'r lleoliad mwyaf cyffredin am ymosodiadau ymysg dioddefwyr benywaidd (Ffigur A18).
- Nododd cyfran uwch o fynychwyr ED yn ymwneud ag ymosodiadau eu bod wedi dioddef ymosodiad gan ddieithryn (58% a 35% yn y drefn honno). Ers mis Ionawr 15, mae ymosodiadau gan ddieithriaid wedi bod yn cynyddu'n raddol ar gyfer mynychwyr benywaidd sydd wedi dioddef ymosodiadau, gyda gostyngiad bach yn ystod Hyd-Rhag 15 (Ffigur A19 a Ffigur A20).
- Roedd rhawd yr heddlu gyda'r nifer uchaf o ddiodesfwyr VWI yn cynnwys Canol y Ddinas (1,714), Plasnewydd (212), Gogledd Elái (185), Llaneirwg (185) a Thremorfa (177).
- Roedd y rhawd â'r nifer uchaf o alwadau WAST yn ymwneud â thrais i glaf unigol yn cynnwys Canol y Ddinas (382), Plasnewydd (71), Butetown (70), Adamsdown (59) a Glan yr Afon (57).
- Roedd y rhawd gyda'r nifer uchaf o ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau yn cynnwys Canol y Ddinas (878), Plasnewydd (70), Cathays (55), Llaneirwg (35) a Buttrills (32).
- Mae'r adeiladau sydd wedi nodi'r nifer uchaf o ymosodiadau yn ôl ymwelwyr ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau wedi eu cyflwyno yn Nhabl A10.

Crynodeb o uned reoli sylfaenol y Gogledd (Ebrill 2014-Mawrth 2016)

- Gwelwyd gostyngiad yn BCU y Gogledd o ran nifer yr ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau o'i gymharu â'r un mis yn y flwyddyn flaenorol (gyda Hyd 15 yn eithriad gyda chynnydd sylweddol mewn ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau wedi eu cofnodi a chynnydd bach iawn yn Awst 15) (Ffigur A21).
- Roedd ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau a galwadau WAST yn fwy tebygol o fod ymysg dynion; cofnododd Heddlu De Cymru bod dioddefwyr VWI yn fwy tebygol o fod yn fenywaidd.
- Roedd ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau yn fwy tebygol o fod rhwng 18-35 oed; tra bod dioddefwyr VWI Heddlu De Cymru a galwadau WAST yn fwy tebygol o fod rhwng 25-34 oed (Ffigur A22). Ar draws pob gwasanaeth, roedd y rheiny oedd rhwng 35-44 oed yn fwy tebygol o fod yn fenywaidd; roedd y rheiny oedd yn <18 oed a rhwng 18-24 oed yn fwy tebygol o fod yn wrywaidd.
- Roedd ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau ar ddydd Sadwrn a dydd Sul yn rhoi cyfrif am 43% o'r ymweliadau ag ED (Tabl A6).
- Roedd ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau a galwadau WAST yn cyrraedd y brig rhwng 00:00-01:59 (12% a 19% yn y drefn honno; Ffigur A23). Ar y cyfan, cyrhaeddodd 19% o ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau yn ystod oriau brig economi'r nos ar benwythnosau (Tabl A6).
- Roedd ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau yn amrywio yn ôl oed ac amser; mynychodd bron dwy ran o bump (38%) o bobl 18-24 oed, 32% o bobl 25-34 oed, 26% <18 oed a 22% 65+ oed ED rhwng 22:00-03:59. Y cyfnod mwyaf cyffredin i fynychwyr ED yn ymwneud ag ymosodiadau i gyrraedd yr ED oedd 14-15:59 a 20:00-21:59, i'r rheiny sydd yn 35-44 oed, 14:00-15:59 oedd yr amser mwyaf cyffredin i gyrraedd yr ED ac i bobl dros 65 oed, 20:00-21:59 oedd yr amser mwyaf cyffredin (Tabl A5).
- Nododd dros draean (36%) o fynychwyr ED yn ymwneud ag ymosodiadau bod y digwyddiad wedi digwydd ar y stryd (Tabl A7).
- Mae mwy o amrywiadau rhwng y rhywiau o ran lleoliad ymosodiadau gyda 44% y cant o fynychwyr ED gwrywaidd a 23% o fynychwyr ED benywaidd yn ymwneud ag ymosodiadau yn nodi bod yr ymosodiad wedi digwydd ar y stryd; tra bod 28% o fynychwyr benywaidd a 11% o fynychwyr gwrywaidd yn nodi bod yr ymosodiad wedi digwydd yn eu cartref eu hunain (Ffigurau A24 a A25).
- Mae mynychwyr ED gwrywaidd yn ymwneud ag ymosodiadau yn fwy tebygol yn gyson o fod wedi dioddef ymosodiad gan ddieithryn (Ffigur A26), tra bod mynychwyr ED benywaidd dros y cyfnod o 24 mis yn fwy tebygol o fod wedi dioddef ymosodiad gan gydnabod/ffrind. Fodd bynnag, dros y 12 mis diweddaraf a ystyriwyd, mae ymosodiadau gan ddieithryn ar gyfer mynychwyr ED benywaidd wedi cynyddu i fod yn berthynas fwyaf cyffredin yn ymwneud ag ymosodiadau yn y tri mis olaf a ystyriwyd (Ffigur A27).
- Roedd rhawd yr heddlu â'r nifer uchaf o ddioddefwyr VWI yn cynnwys y Dref (402), Dwyrain Aberdâr (304), Cymer (171), Cyfarthfa (162) a Beddau (158).
- Roedd y rhawd â'r nifer uchaf o alwadau WAST yn ymwneud â thrais i glaf unigol yn cynnwys y Dref (107); Dwyrain Aberdâr (83); Cymer (52), Porth (40) a Chyfarthfa (39).
- Roedd y rhawd â'r nifer uchaf o ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau yn cynnwys y Dref/Parc [Merthyr] (182), Canol y Ddinas [Caerdydd] (42), Pentre (19) a Threherbert (15).
- Mae'r adeiladau sydd wedi nodi'r nifer uchaf o ymosodiadau yn ôl mynychwyr ED yn ymwneud ag ymosodiadau wedi eu cyflwyno yn Nhabl A11. Roedd y strydoedd a nodwyd fel lleoliadau penodol ymosodiadau ar adegau lluosog, lle'r oedd enw'r lleoliad yn anhysbys i'r mynychwr ED neu lle'r oedd yr ymosodiad wedi digwydd ar y stryd yn cynnwys Stryd Fawr Merthyr (9); Stryd Taf, Pontypridd (7).

Crynodeb o uned reoli sylfaenol y Gorllewin (Ebrill 2014-Mawrth 2016)

- Mae BCU y Gorllewin wedi gweld gostyngiad cyffredinol yn nifer yr ymwelwyr ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau o'i gymharu â'r un mis yn y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae'r gymhariaeth fisol ddiweddaraf yn dangos cynnydd yn yr ymwelwyr ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau (Ffigur A28).
- Ar draws bob un o'r tri gwasanaeth, roedd dioddefwyr ymosodiadau yn fwy tebygol o fod yn wrywaidd.
- Ar draws bob un o'r tri gwasanaeth, roedd nifer uwch o unigolion 25-34 oed gyda'r rheiny sydd yn 18-24 oed yn ail agos iawn. (Ffigur A29).
- Roedd ymweliadau at ED yn ymwneud ag ymosodiadau ar ddydd Sadwrn a dydd Sul yn rhoi cyfrif am 47% (Tabl A6) o ymweliadau ag ED.
- Yn wahanol i dair BCU arall Heddlu De Cymru, nid ymddengys bod gan fynychwyr ED BCU y Gorllewin yn ymwneud ag ymosodiadau amserau brig ac mae'n weddol gyson ar 9-10% ar draws pob pwynt amser gyda gostyngiad bach mewn ymweliadau rhwng 06:00-07:59 ar 3%. Mae gan amserau digwyddiadau WAST amser brig rhwng 02:-00-03:59 (18%; Ffigur A30).
- Ar y cyfan, fe wnaeth 16% o ymwelwyr ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau yn BCU y Gorllewin gyrraedd yn ystod oriau brig economi'r nos ar benwythnosau (Tabl A6).
- BCU y Gorllewin sydd â'r ganran isaf o'r holl fynychwyr ED yn ymwneud ag ymosodiadau sydd yn cyrraedd rhwng 22:00-03:59 ar benwythnosau (yn ystod 'amserau brig' economi'r nos) o'i gymharu â BCU eraill; gallai hyn fod yn rhannol oherwydd y Pwynt Cymorth (Blwch 2, tudalen 20), menter bartneriaeth amlasiantaeth.
- Roedd ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau yn amrywio yn ôl oed ac amser; mynychodd bron traean (31%) 18-24 oed ED rhwng 22:00-03:59, tra bod 18% o bobl <18 oed wedi mynychu ED am anafiadau yn ymwneud ag ymosodiad yn ystod yr un cyfnod o amser (Tabl A5).
- Nododd bron pumed (18%) o fynychwyr ED yn ymwneud ag ymosodiadau bod yr ymosodiad wedi digwydd yn eu cartref eu hunain (Tabl A7).
- Ceir amrywiadau rhwng y rhywiau o ran mathau o leoliad ymosodiadau, nododd 30% o fenywod a 12% o ddynion a fynychodd ED yn ymwneud ag ymosodiadau bod yr ymosodiad wedi digwydd yn eu cartref eu hunain. Mae dynion sy'n mynychu ED yn ymwneud ag ymosodiadau yn nodi'n gyson mai lleoliad mwyaf cyffredin ymosodiad yw'r stryd; tra bod menywod yn nodi mai eu cartref eu hunain yw'r lleoliad mwyaf cyffredin (Ffigurau A31 a A32).
- Roedd mynychwyr gwrywaidd yn ymwneud ag ymosodiadau yn fwy tebygol o fod wedi dioddef ymosodiad gan ddieithryn (Ffigur A33). Mae'r rhan fwyaf o fenywod sy'n mynychu ED yn ymwneud ag ymosodiadau hefyd yn nodi trais gan ddieithryn fel y mwyaf cyffredin; fodd bynnag, yn Ion-Mawrth 15 a Ion-Mawrth 16, cafwyd cynnydd sylweddol mewn trais gan bartner, gan fynd y tu hwnt i drais gan ddieithryn fel y mwyaf cyffredin (Ffigur A34).
- Mae rhawd yr heddlu gyda'r nifer uchaf o ddiodefwyr VWI yn cynnwys y Marina (685); Ardal y Ddinas (247); Penlan (213); Gogledd Castell-nedd (193) a Townhill/Mayhil (195).
- Mae rhawd yr heddlu gyda'r nifer uchaf o alwadau WAST yn ymwneud â thrais i glaf unigol yn cynnwys y Marina (175); Mount Pleasant (104); Ardal y Ddinas [Abertawe] (100); Townhill/ Mayhill (71) a Gogledd Castell-nedd (71).
- Rhawd yr heddlu gyda'r nifer uchaf o ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau oedd Mount Pleasant (209); y Marina (147); Gogledd Castell-nedd (57); Ardal y Ddinas [Abertawe] (48) a Phort Talbot (42).
- Mae adeiladau sydd yn nodi bod ganddynt y nifer uchaf o ymosodiadau yn ôl mynychwyr ED yn ymwneud ag ymosodiadau wedi eu cyflwyno yn Nhabl A12. Roedd strydoedd a nodwyd fel lleoliadau penodol ymosodiadau ar achlysuron lluosog lle'r oedd enw'r lleoliad yn anhysbys i'r mynychwr ED neu lle'r oedd y digwyddiad wedi digwydd ar y stryd yn cynnwys Wind Street (124), Kingsway (30) a Castles Gardens (24) i gyd wedi eu lleoli yn Abertawe a Heol yr Orsaf, Port Talbot (23).

4. Crynodeb ac argymhellion

Mae nifer o bolisiau a mentrau'n bodoli yng Nghymru gyda'r nod o fynd i'r afael â thrais, yn cynnwys y Fframwaith diweddar ar gyfer Rheoli Economi'r Nos yng Nghymru³², a'r Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) (2015)³³.

Mae ymchwil wedi dangos bod trais yn gysylltiedig ag amddifadedd a phenderfynyddion cymdeithasol eraill fel diweithdra, incwm, addysg, a normau diwylliannol, cymdeithasol a'r rhywiau.

Mae rhaglenni ymyrraeth ac atal trais yn fwy tebygol o lwyddo yn yr hirdymor os ydynt yn seiliedig ar dystiolaeth ac wedi eu sefydlu mewn strategaeth atal trais sy'n cydnabod y ffactorau hyn, ac yn ceisio mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn ac yn diogelu yn erbyn risg.

Mae'r rhesymeg hon yn ategu 'Model De Cymru' o ddatblygu system wylidwriaeth a dadansoddi ar gyfer ymyrraeth gynnar ac atal trais.

Cafodd trais yn economi'r nos ei amlygu fel prif ffactor sy'n cyfrannu at ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau yn ystod oriau economi'r nos ac mae nifer o ardaloedd penodol o drais wedi cael eu hamlygu o ganlyniad i rannu data.

Mae ymagwedd ar y cyd ymysg asiantaethau er mwyn gweithredu yn ymwneud ag adeiladau risg uchel yn hanfodol.



Mae angen i'r Heddlu ac ED barhau i weithio'n agos gydag awdurdodau cynllunio a thrwyddedu i roi gwybodaeth hanfodol am ardaloedd penodol o drais er mwyn galluogi rheolyddion priodol ar nifer y lleoliadau â thrwydded mewn un ardal neu ar adeiladau penodol a nodir yn rheolaidd fel lleoliadau ymosodiadau neu 'leoliad diod olaf' i ddioddefwyr ymosodiadau. Gan weithio gydag ymarferwyr iechyd yr amgylchedd a swyddogion adolygu trwyddedau, gellir defnyddio data i ddarparu cynlluniau gweithredu neilltuol er mwyn helpu i leihau peryglon amgylcheddol sydd yn annog trais a gellir eu hystyried wrth adnewyddu trwyddedau.

Yn ogystal, dylai staff sydd yn gweithio mewn adeiladau â thrwydded barhau i gael yr hyfforddiant angenrheidiol i helpu i adnabod naill ai'r unigolion sy'n agored i niwed am eu bod wedi meddwi neu i ymdrin â chwsmeriaid posibl sydd yn dangos ymddygiad bygythiol neu sy'n peri risg.



Yn yr ardaloedd canol dinas mwy, trais gan ddieithriaid a chydabod a nodwyd gan fynychwyr ED yn ymwneud ag ymosodiadau oedd y mwyaf cyffredin.

Felly, bydd sicrhau bod staff sydd yn gweithio mewn adeiladau â thrwydded wedi cael yr hyfforddiant angenrheidiol er mwyn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â gofynion cyfreithiol gweini alcohol, adnabod yr unigolion hynny sydd yn agored i niwed am eu bod wedi meddwi neu sut i ymdrin yn briodol â chwsmeriaid posibl sydd yn arddangos ymddygiad sy'n peri risg yn helpu i sicrhau bod gweithdrefnau diogelu priodol wedi eu sefydlu.

Ymosodiadau sy'n digwydd yn y cartref yw'r mwyaf cyffredin ymysg mynychwyr ED benywaidd yn ymwneud ag ymosodiadau ar draws pob un o bedwar BCU heddlu De Cymru.

Cydnabyddir y gellir ystyried data ar gyfer ymosodiadau yn y cartref fel dirprwy ar gyfer y menywod sydd yn profi trais domestig. Mae angen gwneud gwaith felly i sicrhau bod achosion posibl o drais domestig yn cael eu hatgyfeirio i'r asiantaethau priodol. Byddai gweithio mewn partneriaeth â byrddau iechyd lleol i ddarparu hyfforddiant i staff gofal iechyd rheng flaen i adnabod y rheiny sydd yn dioddef trais domestig, gwella systemau ar gyfer atgyfeirio i asiantaethau cymorth perthnasol a monitro parhaus, yn ogystal ag ysgogi gwasanaethau amddiffyn i leihau digwyddiadau pellach yn helpu i sicrhau bod ymyriadau priodol ar gael ar gyfer grwpiau sydd mewn perygl ar lefel leol.

Mewn nifer o ardaloedd penodol, amlygwyd bod WAST wedi gweld cyfran uwch o alwadau am ambiwlans yn digwydd rhwng 16:00-19:59, yn bennaf i ymdrin â dynion ifanc 15-24 oed.

Cydnabyddir bod nifer uchel o'r rhain o amgylch lleoliadau ysgol, sy'n awgrymu bod problemau'n digwydd unwaith y mae'r ysgol yn cau. Dylid ystyried presenoldeb mwy amlwg gan yr heddlu yn y cyfnod hwn yn yr ardaloedd hyn ynghyd â gweithio gyda phartneriaethau diogelwch ysgolion i ymgysylltu pobl ifanc sydd mewn perygl o drais mewn gweithgareddau sydd yn hybu ffordd o fyw cadarnhaol a gwella lles, yn cynnwys rhaglenni i fynd i'r afael ag ymddygiad sydd yn peri risg a datrys gwrthdaro.

Yn wahanol i'r tair BCU arall, nid yw'n ymddangos bod gan ymweliadau ag ED yn ymwneud ag ymosodiadau BCU y Gorllewin amserau brig ond maent yn aros yn weddol gyson ar 9-10% ar draws pob pwynt amser, gyda gostyngiad mewn ymweliadau rhwng 06:00-07:59. Fel y soniwyd yn flaenorol, gallai hyn fod yn rhannol oherwydd bod y fenter Pwynt Cymorth yn gweithredu yn ystod y cyfnodau 'prysuraf'; mae tystiolaeth o'r fath yn awgrymu y gallai mentrau fel hyn helpu i leddfu baich trais ar wasanaethau lleol. Dylai gweithio mewn cydweithrediad â phartneriaid lleol ar draws De Cymru i weithredu mentrau o'r fath fod yn flaenoriaeth.

Dylid rhoi ystyriaeth i ymestyn y setiau data presennol i integreiddio gwybodaeth am y defnydd o gyffuriau neu alcohol ymysg dioddefwyr a chyflawnwyr trais er mwyn rhoi dealltwriaeth fwy cyflawn o gymunedau sydd fwyaf mewn perygl o drais, a chefnogi dulliau wedi eu targedu o atal trais ymhellach. Byddai gwerthusiadau dilynol o effeithiolrwydd ymyriadau amser real ar drais yn llywio strategaethau ymyrraeth ac ataliaeth ymhellach.

5. Casgliadau

Mae tystiolaeth wedi dangos pwysigrwydd gwaith partneriaeth wrth atal trais. Y prosiect yma oedd y cyntaf yn Ne Cymru i gyfuno data trais gan wasanaethau ambiwlans, byrddau iechyd a ffynonellau'r heddlu er mwyn creu darlun o batrymau lleol trais.

Defnyddiwyd y data yma i lywio gweithredu lleol i atal trais yn Ne Cymru er budd unigolion a chymunedau lleol. Gwnaed llwyddiant y prosiect yn bosibl trwy gydweithredu cadarn ar draws lechyd Cyhoeddus Cymru, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru a'r heddlu, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlan Cymru, ac mae wedi dangos bod cysylltu data yn bosibl ac yn ddefnyddiol mewn amser real.

Mae'r prosiect presennol wedi rhoi cyfle i lywio a datblygu system o rannu data rhwng yr Heddlu, Blau a WAST sydd wedi helpu i ddatblygu dealltwriaeth o drais ar lefel leol ar draws De Cymru.



Mae hyn wedi helpu i sefydlu system o adroddiadau deufisol ar drais yn seiliedig ar ddaeyryddiaeth leol yr heddlu. Defnyddiwyd y wybodaeth hon i gefnogi datblygiad strategaethau ymyrraeth ac ataliaeth wedi eu hanelu at lefelau gweithredol, tactegol a strategol a Grwpiau Gweithredu i Leihau Trais Lleol gwybodus. Mae hyn yn galluogi'r heddlu a phartneriaethau lleol i dargedu strategaethau ymyrraeth ac ataliaeth ar gyfer trais yn eu cymunedau mewn ardaloedd sydd fwyaf mewn perygl o drais.

Mae'r systemau a sefydlwyd yn ystod y prosiect hwn yn sylfaen gwerthfawr i barhau i fwydo'r ddealltwriaeth o drais ar draws De Cymru ac, yn bwysicach, y ffordd orau o dargedu adnoddau i fynd i'r afael â materion trais. Mae'r prosiect hwn wedi gwneud cynnydd yn sefydlu prosesau ar gyfer rhannu data ar draws asiantaethau lluosog gyda gwaith yn cael ei wneud i wella ansawdd data,

fodd bynnag mae potensial o hyd i wella ansawdd data ar draws pob partner. Bydd systemau wedi eu hawtomeiddio ar gyfer rhyddhau data'n rheolaidd gan Blau, yr heddlu a WAST i lechyd Cyhoeddus Cymru, yn sicrhau y gall adroddiadau i'r dyfodol barhau i gael eu creu mewn ffordd amserol er mwyn llywio ymarfer ar lawr gwlad.

Er mwyn sicrhau llwyddiant parhaus y prosiect hwn, mae'n hanfodol bod yr holl bartneriaid yn dal i ymgysylltu â'r prosesau a sefydlwyd i alluogi cyflenwi data yn amserol. Mae hyn yn galluogi'r negeseuon sy'n dod allan o'r data i fod yn ystyrlon ac yn berthnasol, gan roi mwy o allu felly i'r heddlu a phartneriaid iechyd i weithredu'n gyflym er mwyn ymyrryd ac atal trais. Gan fod systemau casglu data'n cael eu cyflwyno ar draws Blau yn ystod 2016 sydd yn cipio eitemau data allweddol yn awtomatig, dylid lleihau amrywiadau o ran data ac oedi wrth gipio data.

Dylai ymyriadau fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac wedi eu teilwra i anghenion penodol ardal, dylid teilwra ymgyrch i atal trais mewn cymunedau risg uchel i gyd-fynd â demograffeg y rheiny sy'n mynychu gwasanaethau yn yr ardal honno. Gellid defnyddio'r systemau mapio a ddatblygwyd ar gyfer y prosiect hwn ymhellach i fapio mathau gwahanol o drais i lefelau amddifadedd ac i wahanol fathau o droseddau fel fandaliaeth a thrais i eiddo. Yn ogystal, gellid defnyddio mapio i alluogi mwy o ddealltwriaeth o'r ffordd y mae materion iechyd yn effeithio ar boblogaethau a'r tueddiadau sy'n effeithio ar y poblogaethau hyn. Felly, mae potensial ar gyfer mapio geoleoliad er mwyn archwilio materion iechyd ac iechyd y cyhoedd eraill fel profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE) ac ymddygiad sy'n niweidio iechyd, a'r materion cymdeithasol ac amgylcheddol eraill sydd yn arwain at drosedd ac anhrefn fel yfed ar feysydd chwarae ac ymysg ieuenctid.

Cyfeiriadau

1. Statistical Bulletin: *Crime in England and Wales: Year ending December 2015*; <http://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/crimeinenglandandwales/yearendingdecember2015> (defnyddiwyd 13/06/2016)

2. http://www.ukcrimestats.com/Police_Forces/ (defnyddiwyd 14/06/2016)

3. Sefydliad Iechyd y Byd (2006) *Interpersonal Violence and Alcohol*. http://www.who.int/violence_injury_prevention/violence/world_report/factsheets/pb_violencealcohol.pdf? (defnyddiwyd 17/12/2015)

4. Sefydliad Iechyd y Byd (2014) *Global Status Report on Violence Prevention* http://www.who.int/violence_injury_prevention/violence/status_report/2014/en/

5. Bellis, M.A., Hughes, K., Perkins, C. a Bennett, A. (2012) *Protecting people promoting health: A public health approach to violence prevention for England*. Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd Gogledd Orllewin Lloegr

6. Sefydliad Iechyd y Byd (2004) *The economic dimensions of interpersonal violence* <http://whqlibdoc.who.int/publications/2004/9241591609.pdf>

7. Duborg, R., Hamed, J. *Estimates of the economic and social costs of crime in England and Wales: costs of crime against individuals and households, 2003/04*. Llundain: Y Swyddfa Gartref, 2005.

8. Y Swyddfa Gartref. *The Government's Alcohol Strategy*. Llundain: Y Swyddfa Gartref; 2012.

9. Moore, S.C., Alam, M.F., Cohen, D., Hood, K., Huang, C., Murphy, S., Playle, R., Moore, L., Shepherd, J., Sivarajasingam, V., Spasic, I., Stanton, H., & Williams, A. (2015). All-Wales Licensed Premises Intervention (AWLPI): a randomised controlled trial of an intervention to reduce alcohol-related violence. Southampton (UK): Llyfrgell Cyfnodolion NIHR; 2015 Medi

10. Walby, S (2009). *The cost of domestic violence: Up-date 2009*. Caerhirfryn: Prifysgol Caerhirfryn, 2009.

11. Quigg, Z., Hughes, K., Bellis, M.A: Data sharing for prevention: a case study in the development of a comprehensive emergency department injury surveillance system and its use in preventing violence and alcohol-related harms. *Inj Prev* 2011, doi:10.1136/injuryprev-2011-040159.

12. Sutherland, I., Sivarajasingham, V., Shepherd, J. (2002). Recording of community violence by medical and police services. *Inj Prev* 2002, 8:246–247.

13. Wood, S., Ford, K., Quigg, Z., a Hughes, K. (2014) *A guide to using health data to inform local violence prevention*. Lerpwl: Canolfan Iechyd y Cyhoedd, Prifysgol John Moores Lerpwl.

14. Ford, K., Quigg, Z., Wood, S., Grant, C., a Hughes K. (2015). *A case study to demonstrate the use of health data in violence prevention within the voluntary and community sector: Local Solutions*. Lerpwl: Canolfan Iechyd y Cyhoedd, Prifysgol John Moores Lerpwl.

15. Benger, J., a Carter, R. (2008). Could interagency working reduce emergency department attendances due to alcohol consumption? *Emerg. Med. Journal*. 2008; 25: 331-4

- 16.** Bellis, M.A., Leckenby, N., Hughes, K., Luke, C., Wyke, S., & Quigg, Z. (2012). Nighttime assaults: using a national emergency department monitoring system to predict occurrence, target prevention and plan services. *BMC Public Health* 2012 12:746
-
- 17.** Droste, N., Miller, P., & Baker, T. (2014). Emergency department data sharing to reduce alcohol-related violence; A systematic review of the feasibility and effectiveness of community-level interventions. *Emergency Medicine Australia* 2014 26, 326-335
-
- 18.** Krug, E.G. Injury surveillance is key to preventing injuries. *Lancet* 2004, 364:1563–1566.
-
- 19.** Florence, C., Shepherd, J., Brennan, I., & Simon, T. (2014). Effectiveness of anonymised information sharing and use in health service, police and local government partnership for preventing violence related injury: experimental study and time series analysis. *BMJ*, 342, ar-lein yn gyntaf.
-
- 20.** Moore, S.C, Murphy, S., Moore, S.N., Brennan, I., Byrne, E., Shepherd, J., & Moore, L. (2012). An exploratory randomised controlled trial of a premises-level intervention to reduce alcohol-related harm including violence in the United Kingdom. *BMC Public Health*. Ion 7;12:412. doi: 10.1186/1471-2458-12-412
-
- 21.** Graham, Osgood, D.W., Zibrowski, E., Purcell, J., Gliksman, L., Leonard, K., Pernanen, K., Saltz, R.F., Toomey, T.L. (2004). The effect of the Safer Bars programme on physical aggression in bars: results of a randomized controlled trial. *Drug Alcohol Rev.* 2004 Mawrth; 23(1):31-41
-
- 22.** Wilson, I.M, Graham, K., & Taft, A. (2014). Alcohol interventions, alcohol policy and intimate partner violence: a systematic review. *BMC Public Health*, Awst 27;14:881. doi: 10.1186/1471-2458-14-881.
-
